

CBAC TAG UG a SAFON UWCH mewn IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

I'w haddysgu o 2020
UG i'w ddyfarnu o 2021
Safon Uwch i'w dyfarnu o 2022

Fersiwn 3b Ebrill 2023

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/ CBAC.



CBAC TAG UG a SAFON UWCH mewn IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT I'w addysgu o 2020 UG i'w ddyfarnu o 2021 Safon Uwch i'w dyfarnu o 2022

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd a gymeradwywyd i'w dyfarnu yng Nghymru o fis Medi 2017.

	Tudalen
Crynodeb o'r asesu	2
1. Cyflwyniad	5
1.1 Nodau ac amcanion	5
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	6
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	7
1.4 Bagloriaeth Cymru	8
1.5 Persbectif Cymreig	8
2. Cynnwys y pwnc	9
2.1 UG Uned 1	12
2.2 UG Uned 2	24
2.3 U2 Uned 3 (llwybr gofal plant)	39
2.4 U2 Uned 4 (llwybr gofal plant)	47
2.5 U2 Uned 5 (llwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion)	57
2.6 U2 Uned 6 (llwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion)	64
3. Asesu	73
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	73
3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad	74
4. Gwybodaeth dechnegol	85
4.1 Cofrestru	85
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	87
Atodiadau	
A: Gridiau asesu ar gyfer asesiad di-arholiad Uned 2, Uned 4 ac Uned 6	88
B: Tasgau asesu di-arholiad ar gyfer Uned 2, Uned 4 ac Uned 6	134

TAG UG a SAFON UWCH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESU

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o chwe uned, dwy uned UG a phedair uned U2. Mae dysgwyr Safon Uwch yn astudio cyfanswm o bedair uned: dwy uned UG ynghyd â'r ddwy uned U2 yn ymwneud â'r llwybr a ddewiswyd ganddynt. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

UG (2 uned)

UG Uned 1: Hybu iechyd a llesiant

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr

20% o'r cymhwyster

80 marc: 100 GMU

Papur ysgrifenedig sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys penodol sy'n ymwneud â hybu iechyd, llesiant a gwydnwch.

Cyflwynir y papur ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

UG Uned 2: Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru

Asesiad di-arholiad: tua 30 awr

20% o'r cymhwyster

100 marc: 100 GMU

Mae'r dasg hon yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr mewn perthynas â'r ffordd y mae iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion yng Nghymru yn cael eu cefnogi drwy ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae'r dasg hon yn gofyn i ddysgwyr wneud y canlynol:

- cynhyrchu adroddiad ar sut mae ymarferwyr o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn cydweithio o fewn canllawiau deddfwriaethol i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- darparu gwybodaeth a fyddai'n berthnasol i ddysgwyr sy'n cynllunio gyrfa yn y dyfodol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a/neu ofal plant. Gellir cyflwyno'r gwaith fel cyflwyniad, blog neu ffeithlun.

Safon Uwch (yr uchod a 2 uned arall)

Llwybr gofal plant

U2 Uned 3: Safbwyntiau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud

30% o'r cymhwyster

100 marc: 150 GMU

Papur ysgrifenedig sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys penodol sy'n ymwneud â safbwyntiau seicolegol a chymdeithasegol ynghylch ymddygiad plant.

Cyflwynir y papur ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb mewn dwy ran. Adran A (40 marc) ac Adran B (60 marc). Mae cwestiynau Adran A yn ymwneud â deunydd a ryddhawyd ymlaen llaw.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

U2 Uned 4: Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc

Asesiad di-arholiad: tua 40 awr

30% o'r cymhwyster

100 marc: 150 GMU

Adnodd gwybodaeth

Mae'r dasg hon yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr mewn perthynas â datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r dasg yn gofyn i ddysgwyr lunio adnodd gwybodaeth ar gyfer rhywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y dyfodol yn y sector gofal plant. Rhaid i'r adnodd gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- materion cyfoes a diogelu
- anghenion gofal a chymorth plant neu bobl ifanc a sut gall yr anghenion hyn gael eu bodloni mewn lleoliad a ddewisir gan y dysgwr.

Llwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion

U2 Uned 5: Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud

30% o'r cymhwyster

100 marc: 150 GMU

Papur ysgrifenedig sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys penodol sy'n ymwneud â safbwyntiau seicolegol a chymdeithasegol ynghylch ymddygiad oedolion.

Cyflwynir y papur ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb mewn dwy ran. Adran A (40 marc) ac Adran B (60 marc). Mae cwestiynau Adran A yn ymwneud â deunydd a ryddhawyd ymlaen llaw.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

U2 Uned 6: Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch

Asesiad di-arholiad: tua 40 awr

30% o'r cymhwyster

100 marc: 150 GMU

Adnodd gwybodaeth

Mae'r dasg hon yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr mewn perthynas â chefnogi a chynnal iechyd, llesiant a gwydnwch oedolion yng Nghymru.

Mae'r dasg yn gofyn i ddysgwyr lunio adnodd gwybodaeth ar gyfer rhywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y dyfodol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol oedolion. Rhaid i'r adnodd gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- materion cyfoes a diogelu
- anghenion gofal a chymorth oedolion a sut gall yr anghenion hyn gael eu bodloni mewn lleoliad a ddewisir gan y dysgwr.

TAG UG a SAFON UWCH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT 4

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2021 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2021.

Bydd Uned 3, Uned 4, Uned 5 ac Uned 6 ar gael yn 2022 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2022.

Mae'r tabl isod yn dangos y llwybrau posibl tuag at gymhwyster TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Ni chaniateir unrhyw gyfuniadau eraill o unedau.

Cymhwyster	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6
UG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant	✓	✓				
Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ¹	✓	✓	✓	✓		
Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ²	✓	✓			✓	✓

Rhifau Cymeradwyo Cymwysterau Cymru
TAG UG: C00/3716/2
TAG Safon Uwch: C00/1253/3

¹ Llwybr gofal plant

² Llwybr Iechyd a gofal cymdeithasol oedolion

TAG UG a Safon UWCH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

1 CYFLWYNIAD

1.1 Nodau ac Amcanion

Mae CBAC TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau trylwyr a manwl i ddysgwyr am ddatblygiad unigolion, a sut i ofalu amdanynt, drwy gydol y rhychwant oes o adeg cenhedlu i oedolaeth ddiweddarach. Mae dysgwyr yn cael y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o ddylanwadau ar dwf, datblygiad, ymddygiad a llesiant dynol. Byddant hefyd yn meithrin dealltwriaeth fanwl o anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a diwylliannol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, ac yn sylweddoli bod gan bawb eu galluoedd a'u hanghenion unigryw eu hunain.

Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth fanwl o sut mae darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru yn cefnogi datblygiad a llesiant unigolion i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae'r fanyleb hon yn cynnwys materion cyfoes mewn perthynas â darparu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant sy'n foesegol a chynaliadwy yng Nghymru, a chreu dysgwyr annibynnol sy'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â chyfleoedd dysgu pellach neu fynd ymlaen i wneud dewisiadau gyrrfaol cysylltiedig.

Mae rhannu'r cynnwys yn unedau yn annog hyblygrwydd o ran darparu. Anogir dysgu gweithredol a phersonoli drwy roi cyfleoedd i'r dysgwyr ymchwilio i faterion gofal a thestunau o'u dewis nhw.

Yn dilyn astudiaeth eang o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ar lefel UG, bydd dewis o lwybr ar lefel U2 yn rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ofal plant neu iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.

Bydd CBAC TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yng nghydestun iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall y materion moesegol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant
- meddu ar ymwybyddiaeth o'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant
- deall bod dulliau plentyn-ganolog neu berson-ganolog o ddarparu gofal
- dehongli a gwerthuso damcaniaethau mewn iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, a myfyrio ar y ffordd y maent yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau
- nodi'r ffactorau cymdeithasegol, seicolegol a biolegol sy'n cyfrannu at iechyd da, ac esbonio rôl y llywodraeth a gweithwyr proffesiynol wrth hybu a chynnal iechyd da
- gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd, ymchwil a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eu hastudiaethau.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a sefydlwyd ar lefel TGAU. Efallai y bydd rhai dysgwyr eisoes wedi meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o'u hastudiaeth o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ar lefel TGAU. Fodd bynnag, nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad at gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon.

Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau rhifedd/mathemateg, llythrennedd/Saesneg/Cymraeg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn darparu sail dda i gamu ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn, fel y bydd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinir drwy astudio cymwysterau sy'n gysylltiedig â sector/pwnc ar Lefel 2.

Mae'r fanyleb hon yn darparu dilyniant addas ar gyfer dysgwyr sydd wedi astudio'r cymwysterau *gwybodaeth* Lefel 2 canlynol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant:

- *TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant*
- *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau*
- *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, neu*
- *Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.*

Hefyd, mae'r fanyleb hon yn darparu dilyniant addas ar gyfer dysgwyr sydd wedi astudio'r cymwysterau *ymarfer* neu *ymarfer a theori* Lefel 2 neu Lefel 3 canlynol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant:

- *Lefel 2/Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori*
- *Lefel 2/Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)*
- *Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)*
- *Lefel 2/Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.*

Gall dysgwyr astudio'r cymhwyster Lefel 3 Tystysgrif neu Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau neu Lefel 3 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: Ymarfer a Theori ar yr un pryd â TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Mae'r canlynol yn ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru:

- bydd angen i unigolyn sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol feddu ar y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd i weithio mewn rolau swyddi penodol
- bydd angen i unigolyn sy'n gweithio yn y sector Gofal, Dysgu, Datblygiad a Chwarae Plant feddu ar:
 - y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd, a'r
 - cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori i weithio mewn rolau swyddi penodol.

I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector Iechyd a Gofal, ewch i wefan Gofal Cymdeithasol Cymru:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/fframwaith-cymwysterau-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru>

Mae'r fanyleb hon yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant drwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, neu i mewn i gyflogaeth. Gall dysgwyr hefyd symud ymlaen i gymwysterau eraill yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr i ddysgwyr na fyddant yn symud ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchoddedig benodol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchoddedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau amrywiaeth eang o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w cael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigrwydd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, rhaid i ddysgwyr ystyried persbectif Cymreig pan fydd cyfle naturiol i wneud hynny'n rhan o'r deunydd pwnc ac os byddai ei gynnwys yn cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u hamgylch fel dinasyddion Cymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru (2006) yn diffinio'r meysydd o gyfrifoldeb polisi sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Yn eu plith mae *iechyd a gwasanaethau ieched*, ac *addysg a hyfforddiant*. Felly, mae'n arbennig o berthnasol i ddysgwyr ystyried agweddau allweddol ar gynnwys y fanyleb hon o bersbectif Cymreig a'r ffordd y mae gwasanaethau yn darparu gofal yng Nghymru. Er enghraifft:

- yn Uned 1, mae'n ofynnol i ddysgwyr ystyried rôl y llywodraeth a gweithwyr proffesiynol wrth gefnogi, hybu a chynnal ieched da yng Nghymru
- yn Uned 2, bydd dysgwyr yn ymchwilio i'r ffordd y mae ieched, llesiant a gwydnwch unigolion yng Nghymru yn cael eu cefnogi.

2 CYNNWYS Y PWNC

Llunnir cynnwys y pwnc a gofynion yr asesiad i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol sy'n eang a manwl yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Mae cynnwys yr unedau UG yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr, tra bod y dewis o lwybrau yn yr unedau U2 yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth fanwl o ofal plant, neu iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.

Bydd disgwyl i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â materion cyfredol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Dylent gael eu hannog i wneud cysylltiadau rhwng theori a gwaith ymarferol fel y gallent gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd.

Dylai cynnwys y fanyleb gael ei ystyried yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru yn yr 21ain ganrif. Hynny yw, o ran darparu gofal cyfannol, sut mae darparu'r gofal a'r cymorth hwn, a phroblemau gwneud hynny. Dylai fod ffocws moesegol ac ystyriaeth o gynaliadwyedd gofal a chymorth yng Nghymru.

Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth fanwl o bwysigrwydd datblygu gwasanaethau cynaliadwy at y dyfodol, ynghyd â chyfrifoldebau unigolyn am ei lesiant ei hun. Dylent hefyd feddu ar ddealltwriaeth dda o'r prif agweddau ar ddeddfwriaeth gyfredol sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru, ac yn eu llywio.

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr ystyried iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ar lefel leol a chenedlaethol. Ym mhob agwedd ar iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, dylai dysgwyr ddeall bod '*cenedlaethol*' yn cyfeirio at Gymru gyfan. O ran gofal iechyd, mae saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, a gall dysgwyr ystyried bod unrhyw un o'r rhain yn '*lleol*'. Fodd bynnag, mae fel arfer yn fwy priodol ystyried bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn '*lleol*' o ran gofal cymdeithasol a gofal plant.

Ym mhob maes testun mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau perthnasol yn cael eu nodi mewn trosolwg cychwynnol ac yna mewn dwy golofn. Mae'r golofn ar y chwith yn manylu ar y cynnwys sydd i'w astudio; mae'r golofn ar y dde yn ymhelaethu ar y cynnwys a restrir ar y chwith. Rhoddir trosolwg bras o bob testun er mwyn rhoi'r cynnwys mewn cyd-destun.

Mae Unedau 1 a 2 yn diffinio cynnwys y pwnc ar gyfer y cymhwyster UG. Ynddyn nhw, mae cynnwys sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Mae Unedau U2 yn darparu dewis o lwybr: yn Unedau 3 a 4 mae cynnwys sy'n benodol i'r llwybr gofal plant, ac yn Unedau 5 a 6 mae cynnwys sy'n benodol i lwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.

Nid awgrymir unrhyw hierarchaeth o ran y drefn y cyflwynir y cynnwys ynddi. Fodd bynnag, gan fod Unedau 1 a 2 ar lefel UG a bod y pedair uned arall ar lefel U2, argymhellir astudio Unedau 1 a 2 cyn Unedau 3 a 4, neu Unedau 5 a 6 (yn dibynnu ar y llwybr a ddewisir ar lefel U2).

Noder – mae deddfwriaeth, strategaethau a mentrau yn sensitif o ran amser. Mae rhestr o'r ddeddfwriaeth, strategaethau a mentrau diweddaraf sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ar gael yn: <https://www.dysquiechydagofal.cymru/>

Er bod asesiad pob uned yn canolbwyntio ar y cynnwys sy'n benodol i'r uned honno, gall ymgeiswyr wneud cyfeiriad perthnasol at gynnwys o unedau eraill. At hynny, dylai ymgeiswyr ddeall pwysigrwydd gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol fel elfen sylfaenol o holl gynnwys y fanyleb. Yn ogystal:

- yn Uned 2, bydd ymgeiswyr yn gallu galw ar wybodaeth a dealltwriaeth o dueddiadau demograffig a enillwyd o fewn Uned 1 wrth gwblhau eu tasg ymchwiliol asesu di-arholiad
- yn Uned 3, bydd ymgeiswyr yn gallu galw ar wybodaeth a dealltwriaeth o benderfynyddion cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd a llesiant, deddfwriaeth a mentrau a enillwyd yn Uned 1, er mwyn atgyfnerthu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen i ateb cwestiynau yn asesiad Uned 3 drwy arholiad
- yn Uned 4, bydd ymgeiswyr yn gallu galw ar wybodaeth a dealltwriaeth o benderfynyddion cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd a llesiant, meysydd datblygu, gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc, asesu, tueddiadau demograffig, deddfwriaeth a mentrau, a lleoliadau gofal a chymorth a enillwyd fel rhan o unrhyw un o Unedau 1, 2 a 3 wrth gwblhau eu tasg asesu di-arholiad
- yn Uned 5, bydd ymgeiswyr yn gallu galw ar wybodaeth a dealltwriaeth o benderfynyddion cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd a llesiant, deddfwriaeth a mentrau a enillwyd yn Unedau 1 a 2, er mwyn atgyfnerthu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen i ateb cwestiynau yn asesiad Uned 5 drwy arholiad
- yn Uned 6, bydd ymgeiswyr yn gallu galw ar wybodaeth a dealltwriaeth o benderfynyddion cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd a llesiant oedolion, meysydd datblygu, gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer oedolion, asesu, tueddiadau demograffig, deddfwriaeth a mentrau, a lleoliadau gofal a chymorth a enillwyd fel rhan o unrhyw un o Unedau 1, 2 a 5 wrth gwblhau eu tasg asesu di-arholiad.

Felly, bydd ymgeiswyr sy'n dilyn y naill lwybr neu'r llall ar gyfer U2 yn cael y cyfle i greu cysylltiadau rhwng elfennau o bob rhan o'r cwrs astudio llawn, ac i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r elfennau hynny.

2.1	Uned 1: UG a Safon Uwch
	Hybu iechyd a llesiant
2.1.1	Diffiniadau a chysyniadau o iechyd a llesiant
2.1.2	Deall safbwyntiau iechyd, llesiant a gwydnwch
2.1.3	Cefnogi a hybu iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru

2.2	Uned 2: UG a Safon Uwch
	Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru
2.2.1	Cefnogi unigolion i gyflawni canlyniadau personol
2.2.2	Arferion gweithio yn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
2.2.3	Darpariaeth leol a chenedlaethol
2.2.4	Cyfrifoldebau a hawliau darparwyr ac unigolion

2.3	Uned 3: Llwybr gofal plant Safon Uwch
	Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc
2.3.1	Damcaniaethau ac egwyddorion datblygiad plant
2.3.2	Pwysigrwydd chwarae wrth ddysgu a datblygu
2.3.3	Ymddygiad plant a phobl ifanc

2.4	Uned 4: Llwybr gofal plant Safon Uwch
	Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
2.4.1	Anghenion plant a phobl ifanc
2.4.2	Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc
2.4.3	Rôl mentrau'r llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol i ddiogelu a gwella'r gofal a'r cymorth i blant a phobl ifanc yng Nghymru

2.5	Uned 5: Llwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion Safon Uwch
	Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion
2.5.1	Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion
2.5.2	Deall safbwyntiau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion
2.5.3	Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol

2.6	Uned 6: Llwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion Safon Uwch
	Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch
2.6.1	Anghenion gofal a chymorth oedolion
2.6.2	Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion
2.6.3	Rôl mentrau'r llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol i ddiogelu a gwella gofal a chymorth oedolion sy'n wynebu risg yng Nghymru

2.1 UG Uned 1

Hybu iechyd a llesiant

Arholiad Ysgrifenedig: 2 awr

50% o'r cymhwyster UG

20% o'r cymhwyster safon Uwch

80 marc

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dri maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 12-22.

2.1.1	Diffiniadau a chysyniadau o iechyd a llesiant
2.1.2	Deall safbwyntiau iechyd, llesiant a gwydnwch
2.1.3	Cefnogi a hybu iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru

2.1.1. Diffiniadau a chysyniadau o iechyd a llesiant

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- diffiniadau o iechyd a llesiant
- modelau iechyd, anabledd a llesiant
- cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt.

Mae hyn yn cynnwys:

- modelau cymdeithasol, biofeddygol a bioseicogymdeithasol o iechyd, anabledd a llesiant
- y ffordd y mae iechyd a llesiant da yn gyd-ddibynnol ar nifer o ffactorau.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Diffiniadau o iechyd a llesiant	<p>Dylai dysgwyr wybod diffiniadau o iechyd a llesiant, gan gynnwys:</p> <p>iechyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • cadarnhaol: cyflawni a chynnal ffitrwydd corfforol a sefydlogrwydd meddyliol • negyddol: absenoldeb afiechyd corfforol, clefyd a thrallod meddwl • cyfannol: cyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn yn hytrach na'r ffaith bod afiechyd neu wendid yn absennol yn unig (<i>Sefydliad Iechyd y Byd</i>)

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Diffiniadau o iechyd a llesiant (parhad)	<p>Llesiant</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn ôl y diffiniad yn Adran 2 o Ran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014). • Ystyr “llesiant”, o ran person, yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o’r canlynol— <ul style="list-style-type: none"> • iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol • amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod • addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden • perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol • cyfraniad a wneir at y gymdeithas • sicrhau hawliau a hawlogaethau (<i>rights and entitlements</i>) • llesiant cymdeithasol ac economaidd • addasrwydd llety byw. • O ran plentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys – <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol • “lles” yn ôl y diffiniad a geir o’r term Saesneg cyfatebol “welfare” at ddibenion Deddf Plant 1989. • O ran oedolyn, mae “llesiant” hefyd yn cynnwys – <ul style="list-style-type: none"> • rheolaeth ar fywyd pob dydd • cymryd rhan mewn gwaith.
(b) Deall modelau iechyd, anabledd a llesiant	<p>Dylai dysgwyr ddeall modelau gwahanol o iechyd, anabledd a llesiant, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • model cymdeithasol: awgrymu bod unigolion yn cael eu hallgáu gan rwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu hiechyd, nam na'r hyn sy'n eu gwneud yn wahanol. Gall rhwystrau fod yn gorfforol e.e. adeiladau ddim yn cynnwys toiledau hygyrch neu gellir eu hachosi gan agweddau unigolion at wahaniaeth e.e. tybio na all unigolion sy'n byw ag anableddau wneud rhai pethau. Mae'r model cymdeithasol yn cydnabod y rhwystrau sy'n gwneud bywyd yn anos i unigolion. • model biofeddygol: tybio bod afiechyd neu glefyd yn bodoli. Mae'n pwysleisio diagnosis clinigol ac ymyrraeth feddygol wrth drin clefyd neu ei symptomau. • model biosecogymdeithasol: ymgorffori dulliau rhyngweithio rhwng ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol er mwyn helpu i benderfynu pam fod gan unigolyn anhwylder o bosibl. <p>Dylai dysgwyr ddeall bod y model cymdeithasol yn wahanol i fodelau meddygol am ei fod yn ailddiffinio'r broblem, tra gyda modelau meddygol mae'r broblem yn aros gyda'r unigolyn.</p>

Cynnwys	Ymhelaethu
(c) Cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant yn: <ul style="list-style-type: none"> • ystyried y person cyfan a sut mae'n rhyngweithio â'i amgylchedd • pwysleisio'r cysylltiad rhwng y meddwl, y corff a'r enaid • annog pobl i dderbyn cyfrifoldeb am eu lefel eu hunain o lesiant • yn seiliedig ar y syniad nad yw'r iechyd gorau posibl yn seiliedig ar absenoldeb clefyd yn unig, ond ar gydbwysedd byw'r 'person cyfan' • sut mae iechyd a llesiant da yn gyd-ddibynnol ar bum ffactor: <ul style="list-style-type: none"> • corfforol • meddyliol/deallusol • emosiynol • cymdeithasol • moesol/ysbrydol.

2.1.2 Deall safbwyntiau ynghylch iechyd, llesiant a gwydnwch

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd a sut maent yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn iechyd a llesiant
- tueddiadau, patrymau a safbwyntiau iechyd, llesiant a gwydnwch
- deddfwriaeth a strategaethau i hybu iechyd, llesiant a gwydnwch da.

Mae hyn yn cynnwys:

- penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd sy'n dylanwadu ar iechyd, llesiant a gwydnwch drwy gydol y rhychwant oes
- ffactorau y gall unigolyn neu na all unigolyn eu rheoli
- deddfwriaeth allweddol gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- strategaethau allweddol gan gynnwys Gofal Iechyd Darbodus.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd a sut maent yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn iechyd a llesiant</p>	<p>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth o benderfynyddion cymdeithasol sydd gyda'i gilydd yn dylanwadu ar iechyd a llesiant a gwydnwch drwy gydol y rhychwant oes, fel: <ul style="list-style-type: none"> • nodweddion personol: yn cynnwys rhyw, oedran, grŵp ethnig, a ffactorau etifeddol • ffactorau ffordd o fyw: yn cynnwys ymddygiadau fel deiet, ysmegu, defnydd o alcohol, camddefnyddio sylweddau ac ymarfer corff • gwydnwch personol a theuluol: yn cynnwys ymdrin ag adfyd, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod • rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol: yn cynnwys cylchoedd teuluol a chymdeithasol ehangach • amodau byw a gweithio: yn cynnwys mynediad a chyfleoedd mewn perthynas â swyddi, tai, addysg a gwasanaethau gofal • amodau economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol: yn cynnwys ffactorau fel tlodi, incwm gwario, iaith (dwyieithog, amlieithog), natur wledig ac argaeledd gwaith • gwerthoedd, credoau ac agweddau tuag at iechyd a llesiant: yn cynnwys credoau diwylliannol a chrefyddol; agweddau cadarnhaol neu negyddol • gwahaniaethu: yn cynnwys uniongyrchol, anuniongyrchol, drwy gysylltiad, drwy ganfyddiad a chymryd camau cadarnhaol i osgoi neu leihau gwahaniaethu • gwahaniaethu rhwng y ffactorau y gall unigolyn eu rheoli, neu na all eu rheoli • nodi sut mae'r penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd hyn yn cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd.

Cynnwys	Ymhelaethu
(b) Tueddiadau, patrymau a safbwyntiau iechyd, llesiant a gwydnwch	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tueddiadau, patrymau a safbwyntiau cyfredol o ran iechyd, llesiant a gwydnwch, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • alcohol • ysmegu • clefyd cardiofasgwlar • bwyta'n iach • gweithgarwch corfforol • canser • iechyd meddwl a llesiant • dementia • gordewdra, yn cynnwys gordewdra ymhlith plant • beichiogrwydd yn yr ardegau • clefydau trosglwyddadwy a lefelau imiwneiddio • iechyd y fam a'r plentyn • lefelau sgrinio • tai/digartrefedd • llygredd • cyflogaeth/diweithdra • gweithlu • tlodi • profiadau niweidiol yn ystod plentyndod • diogelu • plant mewn angen/plant sy'n derbyn gofal • troseddwr ifanc • unigrwydd ac ynysu • cydlyniad y gymdeithas • nifer sy'n derbyn gwasanaethau gofal yn y cartref • twf mewn mentrau cymdeithasol • bylchau yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol. <p>Mae gwybodaeth ar gael yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amcangyfrifon ac amcanestyniadau o'r boblogaeth http://www.arsyllfaiechydchyhoedduscymru.wales.nhs.uk/hafan • sut y defnyddir data i fonitro tueddiadau http://www.arsyllfaiechydchyhoedduscymru.wales.nhs.uk/iechyda-penderfynyddion • Arolwg Cenedlaethol Cymru https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-iechyd-poblogaethau • Gwasanaethau Cymdeithasol https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/ • adroddiadau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol • data awdurdodau lleol/byrddau iechyd • Project Mesur y Mynydd • Adroddiad Llesiant Cymru.

Cynnwys	Ymhelaethu
(c) Deddfwriaeth a strategaethau i hybu iechyd, llesiant a gwydnwch da	<p>Dylai dysgwyr wybod am ddeddfwriaeth allweddol sy'n hybu iechyd, llesiant a gwydnwch.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn canolbwyntio ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • llesiant unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt • hawliau a hawlogaethau (<i>entitlements</i>) • grymuso unigolion i feithrin perthynas newydd â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant • grymuso'r rheini sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant i gydgyhyrchu datrysiadau ag unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt. • Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflwyno saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus a restrir weithio i'w cyflawni: <ul style="list-style-type: none"> • Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru o gymunedau cydlynus • Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang • Cymru sy'n fwy cyfartal. • Mae'r Ddeddf yn rhestru pum dull o weithio i gyflawni'r nodau hyn: <ul style="list-style-type: none"> • tymor hir • integreiddio • cynnwys • cydweithio • atal.

Cynnwys	Ymhelaethu
(c) Deddfwriaeth a strategaethau i hybu iechyd, llesiant a gwydnwch da (parhad)	<p>Dylai dysgwyr wybod am strategaethau allweddol sy'n hybu iechyd, llesiant a gwydnwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus: <ul style="list-style-type: none"> • cyflawni iechyd a lles gyda'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal yn y broses drwy gydgyhyrchu • gofalu am y rhai sydd â'r anghenion iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau • gwneud yr hyn sydd ei angen, dim mwy, dim llai; a pheidio ag achosi niwed. • lleihau amrywiadau amhriodol gan ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd cyson a thryloyw. • Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: <ul style="list-style-type: none"> • mae'n gosod gweledigaeth tymor hir ar gyfer y dyfodol o gael 'dull system gyfan o weithredu o ran iechyd a gofal cymdeithasol', • gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch. • Mwy na Geiriau: <ul style="list-style-type: none"> • fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant • mae'n adeiladu ar y strategaeth wreiddiol i gryfhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn iechyd, gofal cymdeithasol, a gofal plant • eu mamiaith, fel eu bod yn gallu chwarae rhan weithredol yn eu gofal eu hunain.

2.1.3. Cefnogi a hybu iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- mesurau ataliol a gefnogir gan ddewisiadau ffordd o fyw a strategaethau lleol/cenedlaethol
- ffactorau risg y gellir eu haddasu o ran iechyd, llesiant a gwydnwch
- diffiniadau o hybu iechyd
- dulliau gwahanol o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch
- mentrau ac ymgyrchoedd y llywodraeth sy'n cyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru
- y cyd-destun y mae pobl mewn rolau hybu iechyd yn gweithredu ynddo a manteision a chyfyngiadau'r rolau.

Mae hyn yn cynnwys:

- sut gall risgiau i iechyd a llesiant arwain at glefydau sy'n cyfyngu ar fywyd
- pwysigrwydd gwerthuso mewn gweithgaredd hybu iechyd, llesiant a gwydnwch
- sut mae demograffeg a data yn llywio'r angen am fentrau ac ymgyrchoedd.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Mesurau ataliol: a gefnogir gan ddewisiadau ffordd o fyw a strategaethau lleol/cenedlaethol</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mesurau ataliol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • cyfrifoldebau personol/rhieni am iechyd a llesiant • imiwneiddio • rhaglenni sgrinio • rheoli straen • cefnogaeth arbenigol • sut gall y mesurau ataliol hyn gael eu cefnogi gan: <ul style="list-style-type: none"> • ddewisiadau ffordd o fyw • strategaethau lleol a chenedlaethol • addysg • rôl gofalwyr • cefnogaeth deuluol a chymunedol • adnabod risgiau'n gynnar a defnyddio gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • gwasanaethau cyfeillio • addasiadau i dai ar gyfer byw'n annibynnol • shopmobility • systemau teleofal • tai priodol • mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus • mynediad at fand eang • maeth a hydradu • ymgysylltu'n gymdeithasol ac yn ddeallusol.

Cynnwys	Ymhelaethu
(b) Ffactorau risg y gellir eu haddasu o ran iechyd, llesiant a gwydnwch	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ffactorau risg y gellir eu haddasu o ran iechyd, llesiant a gwydnwch, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • gordewdra • camddefnyddio alcohol a sylweddau • ysmygu • rhyw anniogel • clefydau heintus • unigrwydd ac ynysu cymdeithasol • llai o symudedd • risgiau posibl y gellir eu haddasu oherwydd clefyd etifeddol amlffactor, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • mwy o risg o glefyd y galon • pwysedd gwaed uchel • Diabetes math 2 • colesterol uchel. <p>Mae angen i ddysgwyr ddeall pryd y gall risgiau i iechyd a llesiant arwain at sefyllfaoedd sy'n cyfyngu ar fywyd, clefydau sy'n cyfyngu ar fywyd a/neu farwolaeth.</p>
(c) Diffiniad o hybu iechyd	<p>Dylai dysgwyr allu diffinio ystyr hybu iechyd fel y broses o alluogi unigolion i gael mwy o reolaeth dros eu hiechyd, a'i wella*.</p> <p><i>* o ddiffiniad Sefydliad Iechyd y Byd yn Siarter Hybu Iechyd Ottawa (1986)</i></p>

Cynnwys	Ymhelaethu
(ch) Dulliau gwahanol o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dulliau gwahanol o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch, eu manteision a'u cyfyngiadau: <ul style="list-style-type: none"> • person-ganolog • addysgiadol • ymddygiadol • cymdeithasol • meddygol • y gall hybu iechyd, llesiant a gwydnwch fod: <ul style="list-style-type: none"> • yn sylfaenol – wedi'i anelu at leihau risgiau i'r boblogaeth gyfan • eilaidd – wedi'i anelu at leihau ffactorau risg pobl sydd eisoes yn wynebu risg • trydyddol – wedi'i anelu at leihau effaith cyflwr a gwella ansawdd bywyd • sut y defnyddir dulliau gwahanol o ddarparu gwybodaeth i annog unigolion i wella eu hiechyd, eu llesiant a'u gwydnwch, gan gynnwys defnyddio: <ul style="list-style-type: none"> • cyfryngau torfol, cyfryngau cymdeithasol • poster, taflenni • digwyddiadau hyrwyddo.
(d) mentrau ac ymgyrchoedd y llywodraeth sy'n cyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ffynhonnell ymgyrchoedd a mentrau • sut mae ymgyrchoedd a mentrau yn cael eu datblygu gan lywodraeth • sut mae ymgyrchoedd a mentrau yn bwriadu gwneud gwahaniaeth/gwelliant i iechyd, llesiant a gwydnwch pobl yng Nghymru • pa ffurfiau y gall ymgyrchoedd a mentrau eu cymryd • sut mae ymgyrchoedd a mentrau yn cael eu gwerthuso a pha welliannau y maent yn eu cyflwyno • sut gall mentrau ac ymgyrchoedd y llywodraeth gyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen y 1000 o Ddiwrnodau Cyntaf • Cynllun Gwên • Dechrau'n Deg • Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru • Her Iechyd Cymru • Helpa Fi i Stopio • Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) • Rhaglen Cefnogi Pobl • Cadw'n Iach, Cadw'n Gynnes, Cadw'n Ddiogel • Siarad â fi 2 • Curwch Ffliw

Cynnwys	Ymhelaethu
(d) Mentrau ac ymgyrchoedd y llywodraeth sy'n cyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru (parhad)	<ul style="list-style-type: none"> • Meddwl yn Gadarnhaol: Iechyd a lles emosiynol mewn ysgolion a lleoliadau Blynyddoedd Cynnar • Presgripsiynu Cymdeithasol a Llywio Gofal • Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol • Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi • Strategaeth Tlodi Plant Cymru • Rhwydweithiau Cymunedol drwy Gofal Sylfaenol Cymru'n Un
(dd) Y cyd-destun y mae pobl mewn rolau hybu iechyd yn gweithredu ynddo a manteision a chyfyngiadau'r rolau	<p>Dylai dysgwyr wybod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod gan ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant rôl i'w chwarae wrth hybu iechyd, llesiant a gwydnwch, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • arbenigwyr addysg iechyd a hybu iechyd • meddyg teulu • nyrs • deintydd • gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd • bydwaig • ymwelydd iechyd • paediatregydd • seicotherapydd plant • cwnselydd • gweithiwr cefnogi'r teulu • gweithiwr gofal iechyd cymunedol • gweithiwr gofal cymdeithasol • athro/cynorthwydd ystafell ddosbarth/cynorthwydd cymorth dysgu • gweithiwr plant/ieuenctid • prif fanteision a chyfyngiadau'r rolau hyn o ran hybu iechyd, llesiant a gwydnwch <ul style="list-style-type: none"> <u>Manteision</u> <ul style="list-style-type: none"> • arbenigedd/gwybodaeth • cynulleidfa sy'n talu sylw • gwybodaeth am yr unigolyn <u>Cyfyngiadau</u> <ul style="list-style-type: none"> • cyfyngiadau amser • cyfyngiadau ariannol • yn gallu rhoi cyngor ond yn methu â gorfodi'r unigolyn i'w ddilyn (unigolion sy'n amharod i newid)

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(dd) Y cyd-destun y mae pobl mewn rolau hybu iechyd yn gweithredu ynddo a manteision a chyfyngiadau'r rolau (parhad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • y cyd-destun maent yn gweithredu ynddo, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • gwleidyddol: materion ariannol, llymder • demograffig: poblogaeth sy'n heneiddio, mwy o salwch cronig, mwy o bobl sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod • amgylcheddol: newid yn yr hinsawdd, llygredd • cymdeithasol: camddefnyddio sylweddau • lleoliadau: gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gofal trydyddol, darpariaeth y blynyddoedd cynnar, ysgolion, clwb ieuencid • rolau sefydliadau sy'n hybu iechyd a llesiant, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru • Iechyd Cyhoeddus Cymru (rhan o GIG Cymru) • awdurdodau lleol • byrddau iechyd lleol • sefydliadau'r trydydd sector ac elusenol cenedlaethol a lleol • Dechrau'n Deg/Canolfannau Plant Integredig.

2.2 UG Uned 2

Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru

Asesiad di-arholiad: 30 awr
50% o'r cymhwyster UG
20% o'r cymhwyster Uwch
100 marc

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cynnwys tasg a osodir gan CBAC, sydd i'w gweld yn Atodiad B. Gall ymgeiswyr gyflawni eu hymchwil ar gyfer y dasg heb oruchwyliaeth uniongyrchol, cyn dechrau ar eu Hasesiad Di-arholiad. Dylai ymgeiswyr dreulio cyfanswm o tua 30 awr yn ysgrifennu eu Hasesiad Di-arholiad, a chwblhau eu gwaith o dan oruchwyliaeth o fewn y ganolfan.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bedwar maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 25-38.

2.2.1	Cefnogi unigolion i gyflawni canlyniadau personol
2.2.2	Arferion gweithio yn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
2.2.3	Darpariaeth leol a chenedlaethol
2.2.4	Cyfrifoldebau a hawliau darparwyr ac unigolion

Uned 2 Asesiad Di-arholiad

Mae'r dasg hon yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr mewn perthynas â'r ffordd y mae iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion yng Nghymru yn cael eu cefnogi drwy ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae'r dasg yn gofyn i'r dysgwyr:

- (i) cynhyrchu adroddiad ar sut mae ymarferwyr o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn cydweithio o fewn canllawiau deddfwriaethol i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- (ii) darparu gwybodaeth a fyddai'n berthnasol i unigolion sy'n cynllunio gyrfa yn y dyfodol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a/neu ofal plant. Gellir cyflwyno'r gwaith fel cyflwyniad, blog neu ffeithlun.

Bob cyfres arholiadau, bydd CBAC yn dosbarthu manylion am ddarn penodol o ddeddfwriaeth, neu bolisi penodol, y mae'n rhaid i ddysgwyr gyfeirio ato yn eu gwaith yn rhan (ii). Rhaid i'r gwaith yn y rhan hon ymwneud ag unigolyn o ddewis y dysgwr sydd ag anghenion penodol.

2.2.1. Cefnogi unigolion i gyflawni canlyniadau personol

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- cefnogi unigolion i nodi cryfderau a chyflawni canlyniadau personol o ran eu hiechyd a'u llesiant
- cefnogi unigolion i nodi a chryfhau gwydnwch
- nodi ac asesu anghenion unigolion drwy eu rychwant oes
- helpu pobl i fesur cynnydd yn erbyn canlyniadau.

Mae hyn yn cynnwys:

- pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn gallu nodi canlyniadau personol mewn ffordd ystyrlon iddynt eu hunain
- sut mae cefnogaeth yn cael ei rhoi i unigolion er mwyn nodi eu cryfderau, adeiladu eu gwydnwch a mesur cynnydd.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Cefnogi unigolion i nodi cryfderau a chyflawni canlyniadau personol o ran eu hiechyd a'u llesiant	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod y term 'cryfder' yn cyfeirio at wahanol elfennau sy'n helpu neu'n galluogi unigolyn i ddelio â heriau mewn bywyd, yn gyffredinol, a bodloni eu hanghenion a chyflawni eu canlyniadau dymunol. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • eu galluoedd, sgiliau, gwybodaeth, potensial ac adnoddau personol • eu rhwydwaith cymdeithasol a'i adnoddau, galluoedd, sgiliau • adnoddau teuluol a chymunedol • profiadau mewn bywyd a gwydnwch • pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn gallu nodi canlyniadau personol sy'n ystyrlon i'w hunain • bod yn rhaid i ganlyniadau personol gael eu cofnodi yng ngeiriau'r person ei hun, fel bod ganddo berchenogaeth o'i ganlyniadau • bod canlyniadau personol yn golygu gwahanol bethau i wahanol unigolion ac: <ul style="list-style-type: none"> • mai unigolion sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth sy'n bwysig iddynt • y bydd unigolion am gyflawni canlyniadau sy'n personol iddynt • sut mae cefnogaeth yn cael ei rhoi i unigolion er mwyn nodi eu cryfderau a defnyddio'r rhain i gyflawni canlyniadau personol drwy: <ul style="list-style-type: none"> • asesu ac ystyried amgylchiadau'r unigolyn • ystyried ei amgylchiadau personol • asesu ac ystyried unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny • asesu ac ystyried unrhyw risgiau i'r unigolyn neu bobl eraill os na chyflawnir y canlyniadau hynny • asesu ac ystyried cryfderau a galluoedd yr unigolyn.

Cynnwys	Ymhelaethu
(b) Cefnogi unigolion i nodi a chryfhau gwydnwch	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ystyr gwydnwch – gallu unigolyn i ymaddasu'n dda pan fo'n wynebu trallod, trawma, trasiedi a ffynonellau sylweddol o straen • ffactorau sy'n effeithio ar wydnwch unigolyn, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • oed • rhywedd • datblygiad emosiynol • perthnasoedd • profiadau mewn bywyd (yn cynnwys trawsnewidiadau) • profiadau niweidiol yn ystod plentyndod • gwahaniaethu • anghydraddoldeb • sut gall unigolion gael eu cefnogi i nodi a chryfhau eu gwydnwch, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • hybu a chefnogi annibyniaeth • adnabod dewisiadau • hybu sgiliau hunangymorth • adnabod a hybu cryfderau, sgiliau a galluoedd unigolion • darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau heriol gan gynnwys cymryd risgiau cadarnhaol • darparu cyswllt ag unigolyn dibynadwy a chefnogol • hwyluso cysylltiadau ag unigolion defnyddiol eraill • addysgu strategaethau a sgiliau ymdopi • helpu unigolion i adolygu profiadau negyddol am ganlyniadau cadarnhaol.

Cynnwys	Ymhelaethu
(c) Nodi ac asesu anghenion unigolion drwy eu rychwant oes	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol unigolion yn amrywio drwy eu rychwant oes, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • corfforol: ymarfer corff/chwarae, deiet, cysur a diogelwch corfforol, hylendid, lleddfu poen • deallusol/gwybyddol: ysgogiad, cymryd rhan mewn gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored gan gynnwys chwarae, addysgol a dysgu gydol oes • iaith: defnydd o ddewis iaith • emosiynol: preifatrwydd, urddas, cymeradwyaeth, sicrwydd seicolegol, ymreolaeth • cymdeithasol: cyswllt cymdeithasol a chefnogaeth • bod hawl gan unigolion i gael asesiad o'u hanghenion • pwrpas asesiad gofal a chymorth yw gweithio gydag unigolyn, gofalwr a'r teulu, ac unigolion perthnasol eraill, er mwyn nodi ei ganlyniadau personol ei hun, a sut gall gyflawni'r canlyniadau hynny • sut gallai'r anghenion hyn gael eu nodi a'u hasesu, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • dyletswydd gofal yr awdurdod lleol • sut mae'r broses asesu yn dechrau • y gall ymarferydd unigol gynnal asesiad ond y gall fod angen cyngor arbenigol neu asesiadau ychwanegol arno i bennu cymhwysedd • y dylai unigolion deimlo eu bod yn bartner cyfartal yn eu perthynas ag ymarferwyr • dylai asesiadau, o leiaf, gofnodi'r asesiad yn unol â'r adnodd asesu a chymhwysedd cenedlaethol • gall asesiad o anghenion unigolyn gael ei gyfuno ag asesiad o anghenion ei ofalwr.

Cynnwys	Ymhelaethu
(ch) Helpu pobl i fesur cynnydd yn erbyn canlyniadau	<p data-bbox="549 253 967 286">Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="549 322 1307 389">• bod angen i ganlyniadau personol gael eu cofnodi yng ngeiriau'r unigolyn ei hun <li data-bbox="549 425 1318 526">• bod cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn y canlyniadau personol hyn sy'n gysylltiedig ag anghenion cymwys mewn cynllun gofal a chymorth neu gynllun cefnogaeth <li data-bbox="549 562 1362 629">• bod asesiad parhaus, er mwyn mesur cynnydd, yn rhan bwysig o gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cefnogaeth <li data-bbox="549 665 1353 936">• bod myfyrio ar gynnydd tuag at gyflawni canlyniadau personol: <ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="596 734 1353 835">• yn helpu i benderfynu a yw'r cynllun gofal a chymorth neu'r cynllun cefnogaeth yn effeithiol neu a oes angen gwneud newidiadau <li data-bbox="596 835 1321 936">• yn rhoi cyfle i'r unigolyn fyfrio ar yr hyn sy'n bwysig iddo a'r camau mae'n eu cymryd i gyflawni ei ganlyniadau personol <li data-bbox="549 972 1310 1072">• gellir cyfuno cynnydd unigolion o ran cyflawni eu canlyniadau personol er mwyn meithrin dealltwriaeth o b'un a yw eu llesiant yn gwella'n gyffredinol <li data-bbox="549 1108 1362 1585">• sut gall unigolion gael eu helpu i fesur cynnydd yn erbyn canlyniadau: <ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="596 1176 1362 1243">• mae cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau personol yn cael ei fesur mewn adolygiadau ffurfiol <li data-bbox="596 1243 1225 1310">• sgysiau cydweithredol rhwng yr unigolyn a'r ymarferydd <li data-bbox="596 1310 1326 1377">• ymarferwyr yn nodi'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, a'r camau priodol i fynd i'r afael â'r canlyniad personol <li data-bbox="596 1377 1294 1478">• cofnodi camau gydag unigolion er mwyn cyflawni canlyniadau personol, er mwyn eu helpu i nodi eu hatebion eu hunain <li data-bbox="596 1478 1278 1585">• defnyddio sgorau er mwyn dangos cynnydd cadarnhaol neu negyddol ar gyfer pob canlyniad personol.

2.2.2. Arferion gwaith yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- gofal person-ganolog/plentyn-ganolog o fewn darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- egwyddorion a gwerthoedd craidd sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- amrywiaeth o sgiliau a thechnegau a ddefnyddir gan y rhai sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- cydnabod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant o ansawdd uchel
- gwaith amlddisgyblaethol a phartneriaeth fel nodwedd allweddol o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Mae hyn yn cynnwys:

- sut mae gofal person-ganolog/plentyn-ganolog yn ymwneud â darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a deddfwriaeth a pholisïau cyfredol
- bod egwyddorion gofal a chymorth yn seiliedig ar hawliau dynol a deddfwriaeth gyfredol
- bod gan bob unigolyn yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal yr hawl i dderbyn gofal o ansawdd uchel.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Gofal person-ganolog/plentyn-ganolog o fewn darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • beth yw ystyr gofal person-ganolog/plentyn-ganolog a sut mae'n ymwneud â darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a deddfwriaeth a pholisïau cyfredol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • Gofal Iechyd Darbodus • Cydgynhyrchu • Cyfranogiad Gweithredol a Chynnwys Cleifion • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 • Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru • Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed.
(b) Egwyddorion a gwerthoedd craidd sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod egwyddorion gofal a chymorth yn seiliedig ar hawliau dynol a deddfwriaeth gyfredol • y ffordd y mae amrywiaeth o ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn cymhwyso'r egwyddorion a'r gwerthoedd craidd er mwyn helpu i sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> • cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant • cyfrinachedd • hawliau'r unigolyn/plentyn: • urddas • dewis, llais a rheolaeth • credoau a hunaniaeth • dyletswydd gofal • cyfathrebu effeithiol • gofal person-ganolog/plentyn-ganolog • nodi ac osgoi arferion annerbyniol • diogelu • empathi.

Cynnwys	Ymhelaethu
(c) Amrywiaeth o sgiliau a thechnegau a ddefnyddir gan y rhai sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y sgiliau a'r technegau y dylai'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant eu defnyddio fel rhan o'u harferion gwaith • sut gall y rhain gael eu defnyddio er mwyn cyflawni canlyniadau personol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio dulliau cyfathrebu priodol • creu ymddiriedaeth • parchu cyfrinachedd • sicrhau urddas, parch a derbyniad • bod yn gadarnhaol/cymell/annog • arsylwad/canfyddiad cymdeithasol • defnyddio technegau tynnu sylw • modelu ymddygiad priodol • gweithio ochr yn ochr â rhywun/cydgynhyrchu • trin yr unigolyn fel partner cyfartal • gosod heriau (cymryd risgiau cadarnhaol) • dilyn arferion gwaith diogel, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus • mabwysiadu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a datrysiadau.
(ch) Cydnabod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant o ansawdd uchel	<p>Dylai dysgwyr ddeall bod gan bob unigolyn yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal yr hawl i dderbyn gofal o ansawdd uchel, a gyflawnir drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y safonau a bennir mewn deddfwriaeth i ddarparu fframwaith i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu yng Nghymru: <ul style="list-style-type: none"> • Safonau Iechyd a Gofal 2015 (y GIG): • Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir • Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 • sefydliadau sy'n rheoleiddio ac yn arolygu'r gwasanaethau a ddarperir: <ul style="list-style-type: none"> • Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) • Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) • rheoleiddio pobl sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, drwy gadarnhau eu bod yn bobl addas i weithio yn y rôl broffesiynol neu'r swydd benodol: <ul style="list-style-type: none"> • codau ymarfer/ymddygiad, e.e. y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth (NMC), y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), Gofal Cymdeithasol Cymru • dulliau sicrhau ansawdd, gweithdrefnau cwyno, cofrestru • polisïau sefydliadol • Cyngor y Gweithlu Addysg.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(d) Gwaith amlddisgyblaethol a phartneriaeth fel nodwedd allweddol o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant</p>	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut mae gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o ddisgyblaethau yn gweithio gyda'i gilydd, a gyda'r unigolyn, wrth ddarparu gofal cynhwysfawr sy'n bodloni cynifer o anghenion gofal a chymorth yr unigolyn â phosibl. Gall hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • gwaith tîm amlddisgyblaethol: amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn gweithio dan un fantell sefydliadol • gwaith amlasiantaeth/rhyngddisgyblaethol gan amrywiaeth o sefydliadau, sy'n dod ynghyd fel tîm • bod gweithio mewn partneriaeth yn cynnwys gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i wella iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant • wrth i gyflwr a/neu amgylchiadau unigolyn newid dros amser, y gall cyfansoddiad y timau newid er mwyn adlewyrchu anghenion clinigol a seicogymdeithasol parhaus yr unigolyn.

2.2.3 Darpariaeth leol a chenedlaethol

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- strwythur y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru
- cynaliadwyedd darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru
- yr amrywiaeth eang o rolau sy'n bodoli, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth posibl a llwybrau gyrfa posibl yng Nghymru.
- sut mae'r ddarpariaeth yng Nghymru yn cyferbynnu â'r ddarpariaeth mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae hyn yn cynnwys:

- bod iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn cael eu darparu mewn ffyrdd gwahanol
- sut mae unigolion yn cael mynediad at wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, y rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau a sut gellir goresgyn y rhain
- cyfrifoldebau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- rolau, cyfleoedd cyflogaeth posibl a llwybrau gyrfa posibl amrywiaeth o ymarferwyr iechyd, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar
- yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol sy'n effeithio ar ddarparu gofal a chymorth ledled y DU.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Strwythur y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod strwythur y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru yn gymhleth ac yn newid yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 • bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn cael eu darparu mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • y sector statudol: gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant y mae Llywodraeth Cymru yn talu amdanynt ac yn eu darparu • y sector annibynnol: gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg fel busnes i wneud elw ac sy'n cael eu hariannu gan unigolion a/neu eu polisïau yswiriant • y trydydd sector: gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau nid er elw • gofal di-dâl: gan gynnwys y gofal personol lefel uchel a ddarperir gan deuluoedd a gofalwyr ifanc (sydd â hawl i gael asesiad o'u hanghenion) • er bod gwahanol ddarparwyr gofal a chymorth a ariennir yn wahanol, bod y darparwyr yn cydweithio'n rheolaidd mewn partneriaeth (gan gynnwys gwasanaethau wedi'u comisiynu).

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Strwythur y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru (parhad)	<ul style="list-style-type: none"> • sut mae unigolion yn cael mynediad at wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • hunanatgyfeiriad • atgyfeiriad proffesiynol • atgyfeiriad gan drydydd parti • atgyfeiriad brys • adalw • atgyfeiriad gorfodol.
(b) Cynaliadwyedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • themâu Nod Pedwarplyg '<i>Cymru Iachach: ein cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol</i>' mewn perthynas â chynaliadwyedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru: <ul style="list-style-type: none"> • gwell iechyd a llesiant y boblogaeth • gwasanaethau iechyd a gofal mwy hygyrch, ac o ansawdd gwell • iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uwch • gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, sy'n llawn cymhelliant • yr heriau sy'n wynebu darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant wrth gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • problemau o ran adnoddau • cyllid • technolegau newydd • argaeledd gwasanaethau i ateb y galw • effaith y cynnig gofal plant i ateb y galw • effaith tueddiadau demograffig ar y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant: <ul style="list-style-type: none"> • anghenion iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant • proffil oedran y boblogaeth • nifer y rhieni/gofalwyr unigol • lefel diweithdra • anabledd • lefel amddifadedd.

Cynnwys	Ymhelaethu
(b) Cynaliadwyedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru (parhad)	<ul style="list-style-type: none"> • rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • diffyg gwybodaeth • cyfyngiad ariannol • lleoliad daearyddol • rhwystr corfforol • rhwystrau seicolegol • iaith • rhwystrau cyfathrebu • rhwystrau diwylliannol • sut gellir goresgyn rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • mynediad rhyngwyd • llinell ffôn 24 awr • darparu llenyddiaeth mewn gwahanol ieithoedd a fformatau • defnyddio cyfieithwyr a dehonglwyr • defnyddio eiriolwyr • darparu trefniadau mynediad • cymhorthion ac addasiadau. • cyfrifoldebau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant: <ul style="list-style-type: none"> • ceisio aros yn iach ac osgoi pethau sy'n niweidiol i iechyd a llesiant • gofalu am fân afiechyd drwy drin eu hunain/eu plant • y defnydd o wasanaethau brys, dim ond mewn argyfwng • deall gwasanaethau cefnogaeth eraill fel Galw Iechyd Cymru, 111 neu fferyllfeydd cymunedol • bod ar amser ar gyfer apwyntiadau • gadael i'r lleoliad wybod os na ellir mynychu apwyntiad • gadael i'r lleoliad gofal plant wybod os bydd gan eu plentyn glefyd heintus • sicrhau bod gan leoliadau'r wybodaeth gyswllt ddiweddaraf • hysbysu'r rhai sydd ynghlwm wrth eu gofal/gofal eu plentyn am newidiadau mewn amgylchiadau • rhoi organau • dychwelyd cyfarpar nad oes ei angen mwyach • trin staff iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, ac eraill â pharch • cydymffurfio â rheolau a rheoliadau'r lleoliad.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(c) Yr amrywiaeth eang o rolau sy'n bodoli, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth posibl a llwybrau gyrfa posibl yng Nghymru</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rolau, cyfleoedd cyflogaeth posibl a llwybrau gyrfa posibl amrywiaeth o ymarferwyr iechyd, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar, gan gynnwys: <p>Gofal iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nyrs • doctor • seicolegydd • seiciatrydd • deintydd • gweithiwr labordy proffesiynol/gweithiwr proffesiynol ym maes gwyddoniaeth • gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd <p>Gofal cymdeithasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gweithiwr gofal • gofal nyrsio a ddarperir gan nyrsys cofrestredig • cynorthwydd personol • gweithiwr cymdeithasol • gweithiwr allgymorth a chefnogi cymunedol • therapyddion cefnogi <p>Gofal Plant:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gweithiwr/ymarferydd gofal plant • gwarchodwr plant • gweithiwr Dechrau'n Deg • gweithiwr y Cyfnod Sylfaen • athro/athrawes • cynorthwydd cefnogaeth ddysgu • gweithiwr gofal plant preswyl • therapydd chwarae, gweithiwr chwarae • therapydd lleferydd ac iaith • swyddog cefnogaeth deuluol • gweithiwr cyswllt <ul style="list-style-type: none"> • cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa sydd ar gael i ymarferwyr yn y sectorau gwahanol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • cyfleoedd i gael dyrchafiad neu symud ymlaen • meysydd arbenigol • lleoliadau daearyddol.

Cynnwys	Ymhelaethu
(ch) Sut mae'r ddarpariaeth yng Nghymru yn cyferbynnu â'r ddarpariaeth mewn rhannau eraill o'r DU	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol sy'n effeithio ar ddarparu gofal a chymorth ledled y DU, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • gwahanol ddeddfwriaeth a pholisïau yn y DU, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yng Nghymru, o gymharu â Deddf Gofal (Lloegr) 2014 a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 yn Lloegr • mae presgripsiynau am ddim yng Nghymru; mae'n ofynnol i rai unigolion dalu am eu presgripsiynau yn Lloegr • mae gan Gymru bolisi codi tâl am ofal personol, ond mae'r gofal hwn am ddim i bawb yn yr Alban • amrywiadau mewn meini prawf cymhwyster rhwng gwledydd • dulliau gwahanol o ariannu gofal cymdeithasol ledled y DU o ganlyniad i ddatganoli.

2.2.4 Cyfrifoldebau a hawliau darparwyr ac unigolion

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- effaith deddfwriaeth, pholisïau lleol a chenedlaethol ar y ddarpariaeth a hawliau darparwyr ac unigolion
- dulliau seiliedig ar hawliau mewn perthynas â deddfwriaeth ac ymarfer iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- sut mae deddfwriaeth a pholisïau yn gysylltiedig â'i gilydd
- sut mae dulliau seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori yn neddfwriaeth Cymru.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Effaith deddfwriaeth, a pholisïau cenedlaethol a lleol ar y ddarpariaeth ac ar hawliau darparwyr ac unigolion</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • effaith deddfwriaeth a pholisïau lleol a chenedlaethol ar: <ul style="list-style-type: none"> • unigolion: hawliau unigolion a chamau i'w diogelu, mynediad a rhwystrau i wasanaethau, ymgynghori, rheoli anghenion unigolion, cyfrinachedd a materion moesegol • gwasanaethau ac ymarferwyr: newidiadau mewn darpariaeth bresennol, trefniadau cyllido ar y cyd, mwy o atebolrwydd, newidiadau mewn rolau a chyfrifoldebau, cytundebau partneriaeth • arferion gofal ar lefel leol a chenedlaethol: gwella ansawdd, newidiadau o ran lefel a phatrwm darparu gwasanaethau, targedu cyllid i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol neu leol • egwyddorion allweddol deddfwriaeth a pholisïau cyfredol sydd wedi'u cynllunio i: <ul style="list-style-type: none"> • helpu i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn effeithiol drwy wasanaethau • diogelu hawliau unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau • effaith deddfwriaeth ar y ddarpariaeth gofal a chymorth, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 • Deddf Plant 1989, 2004 • Deddf Iechyd y Cyhoedd Cymru 2017 • Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 • Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 • Deddf Hawliau Dynol 1998 • Deddf Cydraddoldeb 2010 • Deddf Galluedd Meddyliol 2005 • Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 • Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Effaith deddfwriaeth, a pholisïau cenedlaethol a lleol ar y ddarpariaeth ac ar hawliau darparwyr ac unigolion (parhad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • effaith polisïau cyfredol ar ddarpariaeth gofal a chymorth, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Cymru Iachach • Gofal Iechyd Darbodus • Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal 2015 • Cronfa Triniaethau Newydd • Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair • Plant Iach Cymru • Dechrau'n Deg • Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach • presgripsiynau am ddim • Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Bobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth. • Mwy na Geiriau • Y Cynnig Rhagweithiol • sut mae deddfwriaeth a pholisïau yn gysylltiedig â'i gilydd.
<p>(b) Dulliau seiliedig ar hawliau mewn perthynas â deddfwriaeth ac ymarfer iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod dulliau seiliedig ar hawliau mewn perthynas â deddfwriaeth ac ymarfer iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru yn seiliedig ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Deddf Hawliau Dynol • Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn • Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau • sut mae'r dulliau hyn yn cael eu hymgorffori yn deddfwriaeth Cymru.

2.3 Safon Uwch Uned 3

Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc

Arholiad Ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster Safon Uwch (llwybr gofal plant)
100 marc

Mae'r arholiad ysgrifenedig mewn dwy adran: Adran A (40 marc) ac Adran B (60 marc). Bydd cwestiynau Adran A yn ymwneud â chyd-destun sydd wedi'i bennu gan CBAC mewn deunydd a ryddheir ymlaen llaw a gyhoeddir ar wefan ddiogel CBAC i'w roi i ymgeiswyr o 1 Mawrth yn y flwyddyn asesu, ond nid cyn hynny.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dri maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 39-46.

2.3.1	Damcaniaethau ac egwyddorion datblygiad plant
2.3.2	Pwysigrwydd chwarae wrth ddysgu a datblygu
2.3.3	Ymddygiad plant a phobl ifanc

2.3.1. Damcaniaethau ac egwyddorion datblygiad plant

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- meysydd datblygu allweddol mewn plant a phobl ifanc: corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol
- sut mae damcaniaethau ac egwyddorion yn ymwneud â datblygiad plant.

Mae hyn yn cynnwys:

- cryfderau a chyfyngiadau'r gwahanol ddamcaniaethau a dulliau
- sut gellir defnyddio'r technegau a'r dulliau hyn i gefnogi datblygiad plant.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Meysydd datblygiad allweddol plant a phobl ifanc: corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol	<p>Dylai dysgwyr ddeall meysydd allweddol datblygiad plant a phobl ifanc (0-18 oed):</p> <ul style="list-style-type: none"> • corfforol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • yr agwedd fiolegol • defnydd a phwrpas mesuriadau • mesurau normadol • datblygiad synhwyrdd • cerrig milltir allweddol datblygiad yn ymwneud â sgiliau echddygol bras a manwl, a chydysymud • glasoed • deallusol/gwybyddol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • y broses feddwl • datrys problemau a chof • dychymyg a chreadigrwydd • ymresymu • canfyddiad • canolbwyntio a sylw

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Meysydd datblygiad allweddol plant a phobl ifanc: corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol (parhad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • ieithyddol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • elfennau datblygu iaith • cyfnodau cyfathrebu • anawsterau mewn cyfathrebu, gan gynnwys oedi iaith, namau, gwahaniaethau iaith • emosiynol a chymdeithasol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • rhyngweithio cymdeithasol • pwysigrwydd ymlyniad • canlyniadau gwahanu oddi wrth brif ofalwyr • datblygiad: <ul style="list-style-type: none"> • teimladau a hunanymwybyddiaeth • teimladau tuag at bobl eraill • personoliaeth • perthnasoedd â phobl eraill.
<p>(b) Sut mae damcaniaethau ac egwyddorion yn ymwneud â datblygiad plant</p>	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut mae'r safbwyntiau seicolegol allweddol a'r damcaniaethau cysylltiedig yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant: <ul style="list-style-type: none"> • Seicodynamig: Freud, Bowlby (gan gyfeirio at arwyddocâd hanesyddol eu gwaith) • Seicogymdeithasol: Erikson, Rutter • Dyneiddiol: Rogers, Maslow • Damcaniaeth Ymddygiad: Pavlov, Skinner/Watson, • Gwybyddol: Piaget, Vygotsky, Bruner, • Dysgu cymdeithasol: Bandura • Biolegol: Eysenck, Cattell, Gesell • Deallusrwydd Emosiynol: Daniel Goleman • cryfderau a chyfyngiadau'r gwahanol ddamcaniaethau a dulliau • sut mae technegau neu ddulliau, yn deillio o'r damcaniaethau, yn ymwneud â datblygiad plant, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • therapi chwarae • therapi plentyn-ganolog a grwpiau cyfarfod • therapi ymddygiad, addasu ymddygiad, rhaglen atgyfnerthu â thalebau • chwarae geiriol a dychmygol â chyfoedion ac oedolion • therapi ymddygiadol gwybyddol • modelu, hyfforddiant sgiliau cymdeithasol a therapi teuluol • triniaethau corfforol/biolegol • model '<i>Skilled Helper</i>' Egan • sut gellir defnyddio'r technegau a'r dulliau hyn i gefnogi datblygiad plant.

2.3.2. Pwysigrwydd chwarae wrth ddysgu a datblygu

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- diffiniadau o chwarae a gwaith chwarae
- pwrpas chwarae
- cyfnodau chwarae
- mathau o chwarae.

Mae hyn yn cynnwys:

- chwarae yn rhan hanfodol o fywyd pob plentyn ac yn hollbwysig i fwynhau plentynod, yn ogystal â datblygiad cymdeithasol, emosiynol, deallusol a chorfforol
- i'r rhan fwyaf o blant mae chwarae yn naturiol ac yn ddigymell, er y gall fod angen help ac anogaeth ar rai plant.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Diffiniadau o chwarae a gwaith chwarae</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Chwarae yn gallu cael ei ddiffinio fel: yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei wneud pan fyddant yn dilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain, am ba reswm bynnag. <p>Mae chwarae'n golygu cymryd rhan mewn gweithgareddau er mwynhad a hamdden yn hytrach nag at bwrpas difrifol neu ymarferol. Mae'n cynnwys y gweithgareddau hynny a gyflawnir i ddiddanu eich hun sy'n esgor ar wobrau ymddygiadol, cymdeithasol a seicoechddygol, a daw'r gwobrau o'r tu mewn i'r plentyn unigol ei hun; mae'n ddigymell ac yn llawn mwynhad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith chwarae yn gallu cael ei ddiffinio fel y broses o greu a chynnal manau i blant chwarae. Mae'n broffesiwn medrus sy'n cyfoethogi ac yn gwella chwarae plant. <p>Mae theori ac ymarfer gwaith chwarae yn cydnabod y dylai chwarae plant, yn ddelfrydol, gael ei ddewis yn rhydd, ei gyfeirio'n bersonol ac ennyn cymhelliant cynhenid, a bod gallu plant a phobl ifanc i ddatblygu'n gadarnhaol yn cael ei wella os bydd yr amrywiaeth ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae ar gael iddynt.</p>

Cynnwys	Ymhelaethu
(b) Pwrpas chwarae	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • chwarae yn rhan hanfodol o fywyd pob plentyn ac yn hollbwysig i fwynhau plentyndod, yn ogystal â datblygiad cymdeithasol, emosiynol, deallusol a chorfforol • mae gan blant hawl i chwarae • mae chwarae yn caniatáu i'r plant ddefnyddio eu creadigrwydd, gan ddatblygu eu dychymyg, eu deheurwydd, eu cryfder corfforol, gwybyddol ac emosiynol ar yr un pryd. Drwy chwarae bydd plant yn rhyngweithio â'r byd o'u cwmpas • mae chwarae gweithredol rheolaidd yn helpu babanod, plant a phobl ifanc i ddatblygu arferion gydol oes o ran ymarfer corff dyddiol a sgiliau bywyd fel: <ul style="list-style-type: none"> • sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol • deall rheolau cymdeithasol • cyfeillgarwch • ymdeimlad o 'roi a chymryd' • amynedd a dyfalbarhad • dealltwriaeth o eraill • gwaith tîm ac ymdeimlad o berthyn • mae chwarae yn sail i holl feysydd dysgu Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Mae chwarae hefyd yn sail i ddysgu a datblygu. Drwy chwarae, bydd plant yn meithrin: <ul style="list-style-type: none"> • sgiliau iaith • emosiynau • creadigrwydd • sgiliau cymdeithasol • sgiliau deallusol • i'r rhan fwyaf o blant mae chwarae yn naturiol ac yn ddigymell, er y gall fod angen help ac anogaeth ar rai plant, fel: <ul style="list-style-type: none"> • therapi chwarae • strategaethau dysgu seiliedig ar chwarae • chwarae pwrpasol.

Cynnwys	Ymhelaethu
(c) Cyfnodau chwarae	<p>Dylai dysgwyr fod yn gallu disgrifio'r chwe phrif gyfnod chwarae:</p> <ul style="list-style-type: none"> • segur • ar eich pen eich hun • gwyliwr • ochr yn ochr • cysylltiadol • cydweithredol.
(ch) Mathau o chwarae	<p>Dylai dysgwyr wybod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y mathau gwahanol o chwarae: <ul style="list-style-type: none"> • chwarae creadigol • chwarae corfforol • chwarae llawn dychymyg/dychmygu neu chwarae rôl • chwarae amgylcheddol • chwarae mewn amgylchedd strwythuredig • chwarae anstrwythuredig • chwarae hunangyfeiriedig • chwarae wedi'i gyfeirio gan y plentyn (chwarae rhydd) • chwarae wedi'i gyfeirio gan y plentyn gyda chefnogaeth oedolyn (sgaffaldiau: chwarae dan arweiniad) • chwarae wedi'i hwyluso gan oedolyn • chwarae wedi'i gyfeirio gan oedolyn (gemau) • chwarae wedi'i reoli gan oedolyn (cyfarwyddiadau uniongyrchol) • sut mae'r gwahanol fathau o chwarae yn cefnogi'r meysydd datblygiad allweddol.

2.3.3. Ymddygiad plant a phobl ifanc

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc
- strategaethau a dulliau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu patrymau ymddwyn cadarnhaol.

Mae hyn yn cynnwys:

- ffactorau cymdeithasegol, seicolegol a biolegol
- sut gall rhieni a'r rhai sy'n gweithio mewn gofal plant hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y ffactorau gwahanol sy'n effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc • bod y ffactorau hyn hefyd yn effeithio ar ddatblygiad <ul style="list-style-type: none"> • cymdeithasegol: <ul style="list-style-type: none"> • y teulu: dulliau rhianta, perthnasoedd, ysgaru, mabwysiadu, maethu • ffordd o fyw: deiet, ymarfer corff • amgylcheddol: tai, lleoliad cymdogaeth, cyfleoedd i chwarae/adnoddau • diwylliannol: ethnigrwydd, addysg, teithio, profiadau diwylliannol, arferion a thraddodiadau, agweddu, gwerthoedd a chredoau • ffrindiau: cymdeithasoli, ynysu, stereoteipio, pwysau cyfoedion • economaidd-gymdeithasol: tlodi/cyfoeth • gwahaniaethu • dylanwad cymdeithas a'r cyfryngau • modelau rôl • seicolegol: hunanhyder, hunangysyniad, meddylfryd, iechyd meddwl plant, gwahanu, ymlyniad gwael <ul style="list-style-type: none"> • profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys <ul style="list-style-type: none"> • galar a cholled, e.e. ysgariad, profedigaeth • trais a bwlio gan gynnwys trais domestig • profiadau bywyd: symud tŷ, genedigaeth brawd neu chwaer, profedigaeth, bod yn ffoadur • tristwch/iselder • trawsnewidiadau: symud ysgol, symud dosbarthiadau neu grwpiau • biolegol: <ul style="list-style-type: none"> • rhywedd, trawsryweddol • anhwylderau genetig • anhwylderau etifeddol • anabledau dysgu • anabledau/iechyd gwael/clefyd, anaf.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(b) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut gall rhieni a'r rhai sy'n gweithio mewn gofal plant hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc: <ul style="list-style-type: none"> • modelu • gosod ffiniau • cysondeb • atgyfnerthu • creu amgylchedd ar gyfer ymddygiad da • llunio polisi ymddygiad sy'n: <ul style="list-style-type: none"> • cyfiawnhau disgwyliadau • cynnwys mewnbwn plant • mynegi rheolau mewn ffordd gadarnhaol • cynnwys rheolau am ymddygiadau grŵp • hybu strategaethau gwydnwch • beth yw ystyr ymddygiad sy'n herio • strategaethau ac ymyriadau i ddelio ag ymddygiadau sy'n herio mewn plant a phobl ifanc • bod tair agwedd ar hybu ymddygiad cadarnhaol: <ol style="list-style-type: none"> 1. Amgylchedd dysgu sy'n gadarnhaol ac yn gefnogol: <ul style="list-style-type: none"> • yn defnyddio technegau a rheolau rheoli ymddygiad cadarnhaol • yn dilyn arferion • yn gosod disgwyliadau, terfynau a ffiniau • yn hybu dewis, cyfrifoldeb ac annibyniaeth. 2. Strategaethau i feithrin sgiliau ac atgyfnerthu ymddygiadau cadarnhaol: <ul style="list-style-type: none"> • siartiau/cardiau gwobrwyo • atgyfnerthu cadarnhaol: canmol y da ac anwybyddu'r negyddol. • Siartiau Hanes Blaenorol, Ymddygiadau a Chanlyniadau (siartiau ABC).

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(b) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol (parhad)</p>	<p>3. Strategaethau i leihau ymddygiadau annymunol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amser tawel • ymarfer adferol • defnydd o ymyriadau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • dargyfeirio, tynnu sylw • Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu • Rhaglen Defnydd Cymdeithasol o Iaith • Ffynnu: meithrin plant gwydn a hyderus • trafodaethau ag unigolyn allweddol • rheoli'r amgylchedd • bod yn gyson • person allweddol • parhau'n bwyllog • creu cardiau ymddygiad neu arferion • parhau i arsylwi a deall yr hyn y mae'r plentyn yn ceisio ei ddweud go iawn drwy ei ymddygiad heriol • cwnsela plant hŷn a phobl ifanc.

2.4 Safon Uwch Uned 4

Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc

Asesiad di-arholiad: 40 awr
30% o'r cymhwyster Safon Uwch (llwybr gofal plant)
100 marc

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cynnwys tasg a osodir gan CBAC, sydd i'w gweld yn Atodiad B. Gall ymgeiswyr gyflawni eu hymchwil ar gyfer y dasg heb oruchwyliaeth uniongyrchol, cyn llunio eu hadnodd. Dylai ymgeiswyr dreulio cyfanswm o tua 40 awr yn llunio eu hadnodd, a chwblhau eu gwaith o dan oruchwyliaeth o fewn y ganolfan.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dri maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 48-56.

2.4.1	Anghenion plant a phobl ifanc
2.4.2	Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc
2.4.3	Rôl mentrau'r llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol i ddiogelu a gwella'r gofal a'r cymorth i blant a phobl ifanc yng Nghymru

Uned 4 Asesiad Di-arholiad

Mae'r dasg hon yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr mewn perthynas â sut mae darpariaeth gofal plant yng Nghymru yn ceisio amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed ac i hybu a chefnogi eu datblygiad.

Bydd yr asesiad yn gofyn i bob dysgwr lunio adnoddau i rywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y dyfodol yn y sector gofal plant.

Mae'r dasg yn gofyn i'r dysgwyr lunio:

- (i) cyflwyniad wedi'i osod o fewn lleoliad gofal plant penodol o'u dewis
- (ii) adroddiad a fyddai'n berthnasol i rywun sy'n cynllunio gyrfa yn y dyfodol yn y sector gofal plant.

Bob cyfres arholiadau, bydd CBAC yn dosbarthu manylion am ddarn penodol o ddeddfwriaeth, neu fenter benodol, y mae'n rhaid i ddysgwyr gyfeirio ato/ati yn eu gwaith yn Nhasg 2, rhan (c)(iii).

2.4.1. Anghenion plant a phobl ifanc

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- pwysigrwydd bodloni anghenion corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc ar bob cyfnod datblygiad
- mathau o drawsnewid, profiadau a newidiadau mewn bywyd a all effeithio ar wydnwch a datblygiad plant a phobl ifanc
- deall ac ymateb i anghenion iechyd a gofal cymhleth plant a phobl ifanc
- y mathau o asesiadau a'u pwrpas wrth ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol i blant a phobl ifanc.

Mae hyn yn cynnwys:

- pwysigrwydd bodloni pob un o'r anghenion hyn drwy ofal plentyn-ganolog a'r effeithiau posibl os nad yw'r anghenion hyn yn cael eu bodloni
- rhwystrau a all gael eu profi gan blant a phobl ifanc y mae angen iddynt gael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth er mwyn bodloni anghenion penodol.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Pwysigrwydd bodloni anghenion corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc ar bob cyfnod datblygiad</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • anghenion plant a phobl ifanc ar bob cyfnod datblygiad, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • corfforol: lloches, bwyd a dillad, gofal meddygol, amddiffyn rhag niwed • deallusol/gwybyddol: ysgogiad, addysg • ieithyddol: lleferydd a chyfathrebu • emosiynol: cariad, sicrwydd, cysondeb, sefydlogrwydd • cymdeithasol: cyfle i ryngweithio ag eraill, sgiliau cymdeithasol • pwysigrwydd bodloni pob un o'r anghenion hyn drwy ofal plentyn-ganolog a'r effeithiau posibl os nad yw'r anghenion hyn yn cael eu bodloni • rhwystrau a all gael eu profi gan blant a phobl ifanc y mae angen iddynt gael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth er mwyn bodloni anghenion penodol: <ul style="list-style-type: none"> • meini prawf cymhwyster • pellter/lleoliad daearyddol – problemau symudedd, argaeledd trafnidiaeth, cost • sut mae'r gallu i gael mynediad at wasanaethau yn amrywio yn dibynnu ar leoliad daearyddol (loteri cod post) • diffyg gwybodaeth • statws economaidd-gymdeithasol • iaith.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(b) Mathau o drawsnewid, profiadau a newidiadau mewn bywyd a all effeithio ar wydnwch a datblygiad plant a phobl ifanc</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y mathau o drawsnewid, profiadau a newidiadau mawr mewn bywyd a all effeithio ar wydnwch a datblygiad plant, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • addysgol: symud ysgol, symud dosbarthiadau neu grwpiau • personol: genedigaeth brawd neu chwaer, profedigaeth, ffoaduriaid, mewnfudo, symud tŷ, mynd ar wyliau, gweithgareddau allgyrsiol/diddordebau, llwyddiannau, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod • effaith trawsnewid, profiadau a newidiadau mewn bywyd a all effeithio ar wydnwch a datblygiad plant, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • cadarnhaol: <ul style="list-style-type: none"> • gallu addasu i wahanol sefyllfaoedd • gallu dibynnu ar eich adnoddau mewnol eich hun • gallu cyflawni eich potensial • gallu ymdopi â straen • datblygu hunangysyniad cadarnhaol – hunaneffeithiolrwydd • creu darlun mwy realistig a chywir o'r byd • gallu symud ymlaen ar ôl methu • negyddol: <ul style="list-style-type: none"> • hunangysyniad negyddol • straen/gorbryder a methu ag ymdopi • tristwch/iselder • perthynas wedi chwalu • ymleiddio ac allgáu cymdeithasol/ynysu cymdeithasol • labelu a stereoteipio • caethiwed • hunan-niweidio • bwlio <p>• sut gall y rhain effeithio ar y ddarpariaeth gofal a chymorth.</p>

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(c) Deall ac ymateb i anghenion iechyd a gofal cymhleth plant a phobl ifanc</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pam y gall fod gan rai plant a phobl ifanc anghenion gofal cymhleth a all fod yn gorfforol, yn wybyddol, yn synhwyrol, yn emosiynol, neu'n anghenion ychwanegol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • anhwylderau genetig fel syndrom Down, ffibrosis cystig, haemoffilia • cyflyrau a achosir yn y groth neu yn ystod genedigaeth • clefydau heintus • afiechyd cronig/sy'n cyfyngu ar fywyd • iechyd meddwl gwael • anghenion dysgu ychwanegol • eraill fel strôc, nam ar y synhwyr • effaith ysgariad • amddifadedd cymdeithasol • natur agored i niwed • problem digartrefedd • effaith marwolaeth rhiant • plentyn mewn angen, maethu a mabwysiadu • ffoadur/mudo, gan gynnwys anghenion ieithyddol a diwylliannol • gofalwyr ifanc • plentyn rhiant sy'n dibynnu ar gyffuriau neu alcohol • profiadau niweidiol yn ystod plentyndod • sut mae anghenion gofal a chymorth cymhleth yn cael eu deall mewn gwahanol leoliadau, a sut yr ymatebir iddynt, er mwyn cyflawni canlyniadau personol: <ul style="list-style-type: none"> • dyrannu gweithwyr allweddol • gwahaniaethau • adnoddau ychwanegol • defnydd o Gynlluniau Addysg Unigol, Cynlluniau Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynlluniau Ymddygiad Unigol • defnyddio cymhorthion ac addasiadau: <ul style="list-style-type: none"> • cymhorthion corfforol: cyfarpar i helpu gyda symudedd/cludiant, gofal personol • technoleg gynorthwyol: caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol • ystafelloedd synhwyrdd • addysg symbylol a rhaglenni datblygu arbenigol eraill.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(ch) Y mathau o asesiadau a'u pwrpas wrth ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol i blant a phobl ifanc</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y mathau o asesiadau a all gael eu cynnal er mwyn nodi anghenion cefnogaeth plant a phobl ifanc: <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio sgwrs fel dull asesu • rhaglen sgrinio plentyndod • proffil y Cyfnod Sylfaen • arsylwadau • pwrpas asesu wrth ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol i blant a phobl ifanc, er mwyn cryfhau gwydnwch, bodloni anghenion sylfaenol a phenodol, gan gynnwys iechyd, cymdeithasol, emosiynol a diwylliannol • y pum elfen o asesu: mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i rheoliadau cysylltiedig yn cyflwyno meini prawf asesu a chymhwysedd yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o bum elfen ryng-gysylltiedig er mwyn sicrhau bod awdurdod lleol yn ystyried amgylchiadau'r unigolyn yn gyffredinol. • lle y bydd awdurdod lleol o'r farn y gall fod angen gofal a chymorth ar blentyn yn ychwanegol at y gofal a'r cymorth a ddarperir gan deulu'r plentyn, neu yn lle'r gofal a'r cymorth hynny, rhaid i'r awdurdod lleol wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • asesu p'un a oes angen gofal a chymorth o'r fath ar y plentyn, ac os felly, beth yw'r anghenion hynny • asesu anghenion datblygu'r plentyn • nodi canlyniadau y mae'r plentyn, a'r unigolyn (unigolion) â chyfrifoldeb rhiant, yn dymuno eu cyflawni a'r graddau y mae'n ystyried sy'n briodol, gan roi sylw i oedran a dealltwriaeth y plentyn • asesu p'un a allai darparu gofal a chymorth, gwasanaethau ataliol, gwybodaeth, cyngor neu gymorth (neu faterion eraill) gyfrannu at gyflawni'r nodau hynny • yr egwyddorion sy'n sail i'r dull o asesu plant a'u teuluoedd, fel bod asesiadau: <ul style="list-style-type: none"> • yn blentyn-ganolog • wedi'u gwreiddio mewn datblygiad plant • yn dilyn dull cyfannol • yn sicrhau cyfle cyfartal • yn cynnwys gweithio gyda phlant a theuluoedd • yn adeiladu ar gryfderau ac yn adnabod anawsterau • yn rhyng-asiantaethol yn y ffordd y maent yn asesu ac yn darparu gwasanaethau • yn broses barhaus, nid un digwyddiad • yn cael eu cynnal yn gyfochrog â chamau gweithredu a darpariaeth gwasanaethau eraill • yn seiliedig ar dystiolaeth • sut gall ymyrraeth gynnwys oedi'r defnydd o wasanaethau gofal a reolir

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(ch) Y mathau o asesiadau a'u pwrpas wrth ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol i blant a phobl ifanc (parhad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • pwrpas cyffredinol cynlluniau gofal a chymorth parhaus, a chynlluniau personol wrth ddarparu cefnogaeth amserol i blant a phobl ifanc. Dylai proses gofal parhaus plant a phobl ifanc: <ul style="list-style-type: none"> • ddilyn set o werthoedd craidd, hybu hawliau plant a phobl ifanc, ag egwyddorion allweddol a llinell amser gyson • sicrhau bod y broses gofal parhaus yn canolbwyntio ar y plentyn neu'r person ifanc a'i rieni a'i ofalwyr • hwyluso'r broses o ddarparu pecynnau gofal wedi'u personoli • cael ei datblygu a'i pherchenogi'n lleol gan dîm amlasiantaethol • croesi ffiniau sefydliadol a rhyngasiantaethol, gan felly leihau'r posibilrwydd o sawl asesiad neu asesiadau mynych, neu ofal darniog • cynnwys mesur canlyniadau a hybu gwella ansawdd yn barhaus • sylweddoli bod iaith yn angen gofal. • bod pecyn gofal yn deillio o gynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau personol, ac yn: <ul style="list-style-type: none"> • gyfuniad o wasanaethau sy'n cael eu rhoi at ei gilydd i fodloni anghenion a aseswyd plentyn neu berson ifanc fel rhan o'r cynllun gofal sy'n dilyn asesiad neu adolygiad • diffinio'n union beth yw anghenion plentyn neu berson ifanc o safbwynt gofal, gwasanaethau neu gyfarpar er mwyn byw ei fywyd ag urddas ac yn gyfforddus a sicrhau llesiant • rhai o'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys mewn pecyn gofal, fel: <ul style="list-style-type: none"> • cymorth gyda gweithgareddau byw bob dydd • cyfarpar anabledd ac addasiadau i'r cartref • cymorth dyddiol gyda gofal personol • canolfannau dydd/gofal dydd • gofal seibiant • derbyn i gartref gofal.

2.4.2. Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- gwerthfawrogiad o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ofal plant
- natur newidiol cymdeithas a'r effaith ar ofal plant
- natur newidiol darpariaeth gofal plant a'r goblygiadau i'r gweithlu.

Mae hyn yn cynnwys:

- yr egwyddorion dylunio cenedlaethol i lywio newid fel y nodir yn 'Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- goblygiadau'r newidiadau mewn gofal plant i rolau'r gweithwyr proffesiynol dan sylw.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Gwerthfawrogiad o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ofal plant	<p>Dylai dysgwyr sylweddoli mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw'r ddeddfwriaeth gyffredinol sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.</p> <p>Dylai dysgwyr werthfawrogi materion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ddarparu gofal plant yng Nghymru, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr angen am ofal a chymorth wedi'u personoli: <ul style="list-style-type: none"> • wedi'u teilwra i anghenion • yn yr iaith o ddewis yr unigolyn • diogelu • darpariaeth o ran y Gymraeg • darpariaeth blynyddoedd cynnar • fforddiadwyedd a chynaliadwyedd • cydraddoldebau a chyfiawnder cymdeithasol • yr egwyddorion dylunio cenedlaethol i lywio newid fel y nodir yn 'Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' <ul style="list-style-type: none"> • atal ac ymyrryd yn gynnar • diogelwch • annibyniaeth • llais • wedi'i bersonoli • yn ddi-dor • gwerth uwch • yn seiliedig ar dystiolaeth • yn fesuradwy • yn drawsnewidiol.
(b) Natur newidiol cymdeithas a'r effaith ar ofal plant	<p>Dylai dysgwyr ddeall sut mae natur cymdeithas yn newid ac effaith hyn ar ofal plant yng Nghymru, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • safonau byw: tai fforddiadwy, tai cymdeithasol, tlodi bwyd/banciau bwyd • oedran mamol • strwythur teuluol • llygredd • cyflogaeth/diweithdra – patrymau gwaith • amlddiwylliannaeth.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(c) Natur newidiol darpariaeth gofal plant a'r goblygiadau i'r gweithlu</p>	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y newidiadau presennol i ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> • cynyddu darpariaeth Dechrau'n Deg • 30 awr o ofal plant am ddim • Strategaeth y Gymraeg – dwyieithrwydd • newidiadau staffio – mwy o ddynion • goblygiadau'r newidiadau i rolau'r gweithwyr proffesiynol dan sylw gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • mwy o gyfleoedd gyrfaol • meithrin sgiliau • gwaith tîm/cydweithio • rolau swyddi gwell • mwy o gyfrifoldebau.

2.4.3. Rôl deddfwriaeth gyfredol a mentrau'r llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chymorth plant a phobl ifanc yng Nghymru

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl deddfwriaeth gyfredol a mentrau'r llywodraeth i ddiogelu a gwella'r gofal a'r cymorth a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- pwysigrwydd diogelu plant a phobl ifanc
- cyfrifoldebau ac atebolrwyddau unigolion sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc
- nodau deddfwriaeth a mentrau'r llywodraeth er mwyn gwella gofal a chymorth i blant a phobl ifanc.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Rôl mentrau'r llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol i ddiogelu a gwella'r gofal a'r cymorth i blant a phobl ifanc yng Nghymru</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pwysigrwydd diogelu plant a phobl ifanc a pham y gall fod ei angen er mwyn eu hamddiffyn rhag niwed, cam-drin (corfforol, emosiynol neu seicolegol, rhywiol, ariannol ac esgeulustod) • diogelu: mae'n ymwneud ag amddiffyn unigolion rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a pheryglon. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Atal (codi ymwybyddiaeth a meithrin gwybodaeth, deall cam-drin ac esgeuluso) • Adnabod (gwybod beth i'w wneud os gwelwch ef) • Rhoi Gwybod ac Ymchwilio, • Amddiffyn • Cofnodi • Deddfwriaeth (o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) • Canlyniadau gorau i'r unigolyn • cyfrifoldebau ac atebolrwyddau unigolion sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc: <ul style="list-style-type: none"> • rhwymedigaeth i hybu diogelwch a lles plant a phobl ifanc • adnabod yr arwyddion bod plentyn wedi dioddef niwed neu ei fod mewn perygl o niwed • atgyfeirio pryderon at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu • cyfrifoldebau unigolion sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc: <ul style="list-style-type: none"> • dilyn deddfwriaeth a chanllawiau'r llywodraeth • defnyddio gweithdrefnau fetio priodol wrth recriwtio gweithwyr newydd • darparu hyfforddiant i adnabod arwyddion cam-drin • codi pryderon • cyfrinachedd a rhoi gwybod/torri gofynion cyfrinachedd eiriolaeth, e.e. SNAP Cymru.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Rôl mentrau'r llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol i ddiogelu a gwella'r gofal a'r cymorth i blant a phobl ifanc yng Nghymru (parhad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • nodau deddfwriaeth a mentrau'r llywodraeth i wella'r gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i blant er mwyn cyflawni canlyniadau personol drwy ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) • Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru • Deddf Plant 2004 • Rhaglen Plant Iach Cymru • Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl (Cyfrolau 1 a 5) Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg • Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) • Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant • Dechrau'n Deg • Strategaeth 10 Mlynedd y Blynyddoedd Cynnar • Mesur Llesiant • Five to Thrive • Polisi Chwarae • Comisiynydd Plant Cymru • Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

2.5 Safon Uwch Uned 5

Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion

Arholiad Ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster Safon Uwch (llwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion)
100 marc

Mae'r arholiad ysgrifenedig mewn dwy adran: Adran A (40 marc) ac Adran B (60 marc). Bydd cwestiynau Adran A yn ymwneud â chyd-destun sydd wedi'i bennu gan CBAC mewn deunydd a ryddheir ymlaen llaw a gyhoeddir ar wefan ddiogel CBAC i'w roi i ymgeiswyr o 1 Mawrth yn y flwyddyn asesu, ond nid cyn hynny.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dri maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 57-63.

2.5.1	Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion
2.5.2	Deall safbwyntiau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion
2.5.3	Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol

2.5.1. Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion
- pwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch wrth ddelio â lleoliadau a sefyllfaoedd gofal.

Mae hyn yn cynnwys:

- y meysydd datblygiad allweddol mewn oedolion a all effeithio ar ymddygiad
- ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion
- effaith gadarnhaol a negyddol y ffactorau hyn ar wydnwch oedolion.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion	<p>Dylai dysgwyr ddeall y meysydd datblygiad allweddol mewn oedolion a all effeithio ar ymddygiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • corfforol gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • mewn oedolaeth gynnar (20-40 oed), mae galluedd corfforol ar eu hanterth • mae'r broses heneiddio hefyd yn dechrau mewn oedolaeth gynnar ac yn cael ei nodweddu gan newidiadau i'r croen, y golwg, a'r gallu i atgenhedlu • mae'r broses heneiddio yn cyflymu mewn oedolaeth ganol (40-65 oed) ac yn cael ei nodweddu gan ddirywiad yn y golwg, y clyw, a gweithrediad y system imiwnedd, yn ogystal â'r menopos • newidiadau eraill sy'n gysylltiedig ag oedran – anymataliaeth, cyflyrau cronig fel effeithiau strôc, clefyd cardiofasgwlar, dementia, osteoarthritis

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion (parhad)	<ul style="list-style-type: none"> • deallusol/gwybyddol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • oedolaeth gynnar a chanol – gallu deallusol ar ei anterth • rhan olaf oedolaeth ganol, ac oedolaeth ddiweddarach – mae'r cof yn mynd yn llai effeithlon er y gall sgiliau gwybyddol barhau i oedolaeth hwyr • cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • rolau cymdeithasol newydd • trawsnewidiadau mewn bywyd – symud tŷ, priodi • sefydlu ymlyniadau a pherthnasoedd newydd • newid rolau – plant yn gadael y cartref • colli perthnasoedd a chyfleoedd i ddatblygu rhai newydd yn lleihau <p>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi, esbonio a rhoi enghreifftiau o'r gwahanol ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion: • cymdeithasegol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • y teulu: perthnasoedd, gwahanu, ysgaru • amgylcheddol: lleoliad cymdogaeth, tai • ffordd o fyw: deiet, ymarfer corff • diwylliannol: ethnigrwydd; addysg; teithio; profiadau diwylliannol; arferion a thraddodiadau, agweddau, gwerthoedd a chredoau • ffrindiau: cymdeithasoli, ynysu, stereoteipio, pwysau cyfoedion • economaidd-gymdeithasol: tlodi/cyfoeth • gwahaniaethu • dylanwad cymdeithas a'r cyfryngau • modelau rôl • seicolegol: hunan-barch, hunangysyniad, meddylfryd: <ul style="list-style-type: none"> • profiadau niweidiol yn ystod plentyndod • profiadau bywyd: symud tŷ, profedigaeth, bod yn ffoadur • galar a cholled, ysgariad, profedigaeth • tristwch/iselder • trawsnewidiadau: priodi, dod yn rhiant • trais a bwlio gan gynnwys trais domestig • biolegol: <ul style="list-style-type: none"> • rhywedd, trawsryweddol • anhwylderau genetig • anhwylderau etifeddol • anabledau dysgu • anabledau/iechyd gwael/clefyd, anaf.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(b) Pwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch wrth ddelio â lleoliadau a sefyllfaoedd gofal</p>	<p>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch oedolion wrth ddelio â lleoliadau a sefyllfaoedd gofal.</p> <p>Cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymaddasu i'r sefyllfa y gall unigolyn ei gael ei hun ynddi • gallu dibynnu ar adnoddau mewnol yr unigolyn ei hun • gallu cyflawni potensial yr unigolyn ei hun • gallu gwrthsefyll straen • meithrin hunangysyniad cadarnhaol • creu darlun mwy realistig a chywir o'r byd • symud ymlaen ar ôl methu <p>Negyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hunangysyniad negyddol • straen a methu ag ymdopi • iselder • perthynas wedi chwalu • ymleiddio ac allgáu cymdeithasol/ynysu cymdeithasol. • labelu a stereoteipio • caethiwed • hunan-niweidio • bwlio.

2.5.2. Deall safbwyntiau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- damcaniaethau allweddol sy'n ymwneud â deall a rheoli ymddygiadau penodol
- dulliau allweddol mewn ymarfer sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad oedolion.

Mae hyn yn cynnwys:

- safbwyntiau seicolegol allweddol a damcaniaethau cysylltiedig, eu cryfderau a'u gwendidau a sut maent yn cael eu cymhwyso at fathau penodol o ymddygiad
- sut gall y dulliau hyn gael eu defnyddio i helpu i reoli ymddygiad o dan rai amodau neu mewn rhai sefyllfaoedd.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Y damcaniaethau allweddol sy'n ymwneud â deall a rheoli ymddygiadau penodol	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut mae'r safbwyntiau seicolegol allweddol a'r damcaniaethau cysylltiedig yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad pobl: <ul style="list-style-type: none"> • Seicodynamig: Freud, Bowlby (gan gyfeirio at arwyddocâd hanesyddol eu gwaith) • Seicogymdeithasol: Erikson, Rutter • Dyneiddiol: Rogers, Maslow • Damcaniaeth Ymddygiad: Pavlov, Skinner/Watson • Gwybyddol: Piaget, Vygotsky, Bruner • Dysgu cymdeithasol: Bandura • Biolegol: Eysenck, Cattell, Gesell • Deallusrwydd Emosiynol: Daniel Goleman • cryfderau a chyfyngiadau'r gwahanol ddamcaniaethau a dulliau.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(b) Dulliau allweddol mewn ymarfer sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad oedolion</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut gall y technegau neu'r dulliau, yn deillio o'r damcaniaethau, helpu i reoli ymddygiadau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • therapi person-ganolog • therapi addasu ymddygiad e.e. rheoli amser • therapi ymddygiadol gwybyddol (CBT) • ailstrwythuro gwybyddol Beck • Model '<i>Skilled Helper</i>' Egan • therapïau cyffuriau e.e. gwrthiselyddion, tawelyddion (bensodiasepinau) • therapi electrogynhyfol (ECT) • ymlacio a myfyrio • seicdreiddio • arferion • straen unigol – ymatebion i newid • dulliau o ymyrryd • therapïau siarad • grwpiau hunangymorth • ymwybyddiaeth ofalgar • ioga • bod o bwys • cynllun Pili Pala • sut gall y technegau a'r dulliau hyn gael eu defnyddio i reoli ymddygiad o dan rai amodau neu mewn rhai sefyllfaoedd, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • CBT/Therapi cyffuriau/ECT wrth gefnogi unigolion ag iselder • grwpiau hunangymorth, arferion, ymwybyddiaeth ofalgar, ioga, ymlacio a myfyrio wrth gefnogi unigolion sy'n profi straen a/neu orbryder • bod o bwys a'r cynllun Pili Pala wrth gefnogi unigolion â dementia.

2.5.3 Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol

Yn yr adran hon bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol.

Mae hyn yn cynnwys:

- dulliau o gefnogi ymddygiad cadarnhaol yn seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog
- beth yw ystyr ymddygiad sy'n herio
- strategaethau a all gael eu defnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod dulliau cadarnhaol a rhagweithiol (neu ataliol) yn seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog: <ul style="list-style-type: none"> • dod i adnabod unigolyn • parchu a gwerthfawrogi ei hanes a'i gefndir a'i dealltwriaeth: <ul style="list-style-type: none"> • ei hoff bethau a'i gas bethau • ei sgiliau a'i alluoedd • yr hyn sy'n well ganddo o ran dull cyfathrebu a strwythurau cefnogaeth • deall effaith ei amgylchedd arno, a • defnyddio hyn i nodi ffyrdd o gefnogi unigolion yn gyson ym mhob agwedd ar y gofal maent yn ei gael • datblygu a monitro cynlluniau sy'n amlinellu anghenion unigolyn, canlyniadau llesiant dymunol a'r ffyrdd y bydd yn cael ei gefnogi i'w cyflawni • bod meithrin perthnasoedd da yn hanfodol, ac y dylid defnyddio dulliau cadarnhaol a rhyngweithiol drwy'r amser • bod dulliau cadarnhaol yn cynnwys gweithio gyda'r unigolyn a'i systemau cefnogaeth er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> • ceisio deall beth mae rhywun yn ei deimlo a pham ei fod yn ymateb fel y mae, lle bo modd • gwneud unrhyw newidiadau gofynnol ac ymyrryd ar gam cynnar er mwyn ceisio atal sefyllfaoedd anodd • deall beth y mae angen ei gynllunio a'i gyflwyno er mwyn cefnogi'r unigolyn i reoli gofid a dicter mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i ymddwyn mewn ffordd sy'n herio ac unrhyw gyfyngiadau • beth yw ystyr ymddygiad sy'n herio.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol (parhad)	<p>Dylai dysgwyr wybod am amrywiaeth o strategaethau a dulliau a all gael eu defnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol • Cefnogaeth Weithredol • Dull Gweithredu Adferol • Gofal person-ganolog, gan gynnwys y cynllun Pili Pala i bobl â dementia • System goleuadau traffig.

2.6 Safon Uwch Uned 6

Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch

Aseiad di-arholiad: 40 awr

30% o'r cymhwyster Safon Uwch (llwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion)

100 marc

Mae'r aseiad di-arholiad hwn yn cynnwys tasg a osodir gan CBAC, sydd i'w gweld yn Atodiad B. Gall ymgeiswyr gyflawni eu hymchwil ar gyfer y dasg heb oruchwyliaeth uniongyrchol, cyn llunio eu hadnodd. Dylai ymgeiswyr dreulio cyfanswm o tua 40 awr yn llunio eu hadnodd, a chwblhau eu gwaith o dan oruchwyliaeth o fewn y ganolfan.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dri maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 65-72.

2.6.1	Anghenion gofal a chymorth oedolion
2.6.2	Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion
2.6.3	Rôl mentrau'r llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol i ddiogelu a gwella gofal a chymorth oedolion sy'n wynebu risgyng Nghymru

Uned 6 Aseiad Di-arholiad

Yn y dasg hon, asesir gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr mewn perthynas â sut mae'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn anelu at amddiffyn unigolion rhag niwed a chynnal eu hiechyd a'u llesiant.

Bydd yr aseiad yn gofyn i bob dysgwr lunio adnoddau ar gyfer rhywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y dyfodol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.

Mae'r dasg yn gofyn i'r dysgwyr lunio:

- (i) cyflwyniad wedi'i osod o fewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol penodol i oedolion o'u dewis
- (ii) adroddiad a fyddai'n berthnasol i rywun sy'n cynllunio gyrfa yn y dyfodol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion.

Bob cyfres arholiadau, bydd CBAC yn dosbarthu manylion am ddarn penodol o ddeddfwriaeth, neu fenter benodol, y mae'n rhaid i ddysgwyr gyfeirio ato/ati yn eu gwaith yn Nhasg 2, rhan (c)(ii).

2.6.1. Anghenion gofal a chymorth oedolion

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- pwysigrwydd darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bodloni anghenion unigolyn yn unol â gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- rhwystrau a all gael eu profi gan unigolion y mae angen iddynt gael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth er mwyn bodloni anghenion penodol
- trawsnewidau, profiadau a newidiadau mewn bywyd a all effeithio ar anghenion gofal a chymorth oedolion, gan gynnwys gofal diwedd oes ac anghenion gofal cymhleth
- y mathau o asesiadau a'u pwrpas wrth ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol i unigolion.

Mae hyn yn cynnwys:

- egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- anghenion gofal cymhleth a all fod yn gorfforol, yn wybyddol, yn synhwyrdd, yn anghenion ychwanegol
- y pum elfen o asesu.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) pwysigrwydd darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bodloni anghenion unigolyn yn unol â gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • bod gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn golygu: <ul style="list-style-type: none"> • rhoi'r unigolyn yn y canol • nodi'r hyn sy'n bwysig yn ei fywyd • sicrhau bod pawb yn cydweithio, gan gynnwys yr unigolyn, gan adeiladu ar ei gryfderau • dylai'r unigolyn fod, a theimlo ei fod, yn bartner cyfartal yn y broses • anghenion ychwanegol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • corfforol: ymarfer corff, deiet, gofal meddygol, amddiffyn rhag niwed, cysur corfforol • deallusol/gwybyddol: ysgogiad, cymryd rhan mewn gweithgareddau • ieithyddol: cyfathrebu • emosiynol: preifatrwydd, urddas, sicrwydd seicolegol, ymreolaeth • cymdeithasol: cyswllt cymdeithasol a chefnogaeth gymdeithasol • pwysigrwydd bodloni pob un o'r anghenion hyn drwy ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'r effeithiau posibl os na chaiff yr anghenion hyn eu bodloni.

Cynnwys	Ymhelaethu
(b) Rhwystrau a all gael eu profi gan unigolion y mae angen mynediad at wasanaethau gofal a chymorth arnynt er mwyn bodloni anghenion penodol	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhwystrau a all gael eu profi gan unigolion y mae angen mynediad at wasanaethau gofal a chymorth arnynt er mwyn bodloni anghenion penodol: <ul style="list-style-type: none"> • meini prawf cymhwyster • pellter/leoliad daearyddol – problemau symudedd, argaeledd trafndiaeth, cost • sut mae'r gallu i gael mynediad at wasanaethau yn amrywio yn dibynnu ar leoliad daearyddol (loteri cod post) • diffyg gwybodaeth • statws economaidd-gymdeithasol • iaith.
(c) Trawsnewidiadau, profiadau a newidiadau mewn bywyd a all effeithio ar anghenion gofal a chymorth oedolion, gan gynnwys gofal diwedd oes ac anghenion gofal cymhleth	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfnodau trawsnewid a newidiadau mawr mewn bywyd a all effeithio ar anghenion gofal a chymorth oedolion: <ul style="list-style-type: none"> • colled dramatig a cholled raddol, fel: marwolaeth rhywun annwyl, colli'r ymdeimlad o hunan/dementia, colli clyw, colli golwg, colli annibyniaeth • gadael gartref/symud tŷ • tristwch/galar/profedigaeth • menopos • heneiddio • cyflyrau iechyd aciwt a chronig • bod yn ffoadur • gweithio/dychwelyd i'r gwaith • byw'n annibynnol • ymddeoliad • dod yn rhiant/nain neu daid neu fam-gu neu dad-cu • cwrdd â phartneriaid • datblygu cyfeillgarwch • meithrin dealltwriaeth a doethineb • pam y gall fod gan rai oedolion anghenion gofal cymhleth a all fod yn gorfforol, yn wybyddol, yn emosïynol, yn synhwyrol, neu'n anghenion ychwanegol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • anhwylderau genetig fel syndrom Down, ffibrosis cystig, haemoffilia • clefydau heintus • damweiniau • afiechyd cronig neu angheuol • anghenion dysgu ychwanegol • ysgaru • amddifadedd cymdeithasol • natur agored i niwed • problem digartrefedd • ffoadur/mudo, gan gynnwys anghenion ieithyddol a diwylliannol • bod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol • profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(c) Trawsnewidiadau, profiadau a newidiadau mewn bywyd a all effeithio ar anghenion gofal a chymorth oedolion, gan gynnwys gofal diwedd oes ac anghenion gofal cymhleth (parhad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • bod cymhorthion ac addasiadau yn darparu gofal a chymorth i oedolion ag anghenion cymhleth neu ychwanegol, er mwyn goresgyn rhwystrau a helpu gyda gweithgareddau bob dydd er mwyn gwella iechyd a llesiant a chyflawni canlyniadau personol: <ul style="list-style-type: none"> • cymhorthion corfforol: cyfarpar i helpu gyda symudedd/cludiant, gofal personol • technoleg gynorthwyol – caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol • bod gofal diwedd oes/gofal lliniarol fel arfer yn cynnwys dull cyfannol. Mae pobl yn cael eu cefnogi i fyw cystal â phosibl am gyfnod mor hir â phosibl drwy ofal corfforol (e.e. lleihau poen, lleihau symptomau eraill a sicrhau cysur), gofal seicolegol i'r unigolyn a'i deulu, cefnogaeth gymdeithasol, economaidd ac ysbrydol.
<p>(ch) Y mathau o asesiadau a'u pwrpas wrth ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol i unigolion</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y mathau o asesiadau a all gael eu cynnal er mwyn nodi anghenion cefnogaeth unigolion: <ul style="list-style-type: none"> • wyneb yn wyneb • asesiad ar-lein neu dros y ffôn • hunanasesiad â chymorth • asesiad ar y cyd • asesiad cyfun • y pum elfen o asesu: mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i rheoliadau cysylltiedig yn cyflwyno meini prawf asesu a chymhwysedd yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o bum elfen ryng-gysylltiedig er mwyn sicrhau bod awdurdod lleol yn ystyried amgylchiadau'r unigolyn yn gyffredinol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol: <ul style="list-style-type: none"> • asesu ac ystyried amgylchiadau'r unigolyn • ystyried ei ganlyniadau personol • asesu ac ystyried unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny • asesu ac ystyried unrhyw risgiau i'r unigolyn neu bobl eraill os na chyflawnir y canlyniadau hynny • asesu ac ystyried cryfderau a galluoedd yr unigolyn • sut gall ymyrraeth gynnar oedi'r defnydd o wasanaethau gofal a reolir • pwrpas cyffredinol cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau personol wrth ddarparu cefnogaeth amserol i'r unigolyn: <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod yr unigolyn yn cael gofal o'r un ansawdd ni waeth pwy yw ei ofalwr • sicrhau bod y gofal a ddarperir yn cael ei gofnodi er mwyn cefnogi'r unigolyn i reoli'r sefyllfa

Cynnwys	Ymhelaethu
(ch) Y mathau o asesiadau a'u pwrpas wrth ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol i unigolion (parhad)	<ul style="list-style-type: none"> • bod cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau personol yn benodol i unigolyn, a bod yr unigolyn wrth wraidd unrhyw benderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar ei fywyd, a'i fod yn bartner cyfartal wrth ddatblygu cynllun gofal a chymorth • y dylai gofal a chymorth helpu unigolyn i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • byw'n annibynnol • rheoli ei fywyd cymaint â phosibl • cyfrannu at gymdeithas mewn ffordd gyfartal, gan weithio a mwynhau bywyd teuluol • byw bywyd o'r ansawdd uchaf • cadw cymaint o urddas a pharch â phosibl. • y wybodaeth mae cynllun gofal a chymorth a/neu gynllun personol yn debygol o'i chynnwys. • bod pecyn gofal yn deillio o gynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau personol ac: <ul style="list-style-type: none"> • yn gyfuniad o wasanaethau sy'n cael eu rhoi at ei gilydd i fodloni anghenion a aseswyd unigolyn • diffinio'n union beth yw anghenion unigolyn o safbwynt gofal, gwasanaethau neu gyfarpar • y gwasanaethau sy'n rhan o becyn gofal: <ul style="list-style-type: none"> • cymorth gyda gweithgareddau bob dydd • cyfarpar anabledd ac addasiadau i'r cartref • cymorth dyddiol gyda gofal personol a choginio • canolfannau dydd/gofal dydd • gofal seibiant • derbyn unigolyn i gartref gofal preswyl neu gartref nyrsio.

2.6.2. Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- gwerthfawrogiad o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol oedolion
- natur newidiol cymdeithas a'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol oedolion
- natur newidiol darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a'r goblygiadau i'r gweithlu.

Mae hyn yn cynnwys:

- meysydd darparu gwasanaethau allweddol yng Nghymru gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion.
- y boblogaeth sy'n heneiddio a strwythurau teuluol
- atal, ymyrryd yn gynnar, cydweithio, cydgynhyrchu wrth ddarparu gofal a chymorth i oedolion
- y dull person-ganolog at ofal.

Cynnwys	Ymhelaethu
(a) Gwerthfawrogiad o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol oedolion	<p>Dylai dysgwyr werthfawrogi materion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr angen am ofal a chymorth wedi'u personoli: <ul style="list-style-type: none"> • wedi'u teilwra i anghenion • yn yr iaith o ddewis yr unigolyn • diogelu • darpariaeth o ran y Gymraeg • fforddiadwyedd a chynaliadwyedd • cydraddoldebau a chyfiawnder cymdeithasol • yr egwyddorion dylunio cenedlaethol i lywio newid fel y nodir yn 'Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' <ul style="list-style-type: none"> • atal ac ymyrryd yn gynnar • diogelwch • annibyniaeth • llais • wedi'i bersonoli • yn ddi-dor • gwerth uwch • yn seiliedig ar dystiolaeth • yn fesuradwy • yn drawsnewidiol.
(b) Natur newidiol cymdeithas a'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol oedolion	<p>Dylai dysgwyr fod yn gallu esbonio sut mae natur cymdeithas yn newid a sut mae hyn yn effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • poblogaeth sy'n heneiddio • safonau byw, tai fforddiadwy, tai cymdeithasol, tlodi bwyd/banciau bwyd • strwythurau teuluol • llygredd • cyflogaeth/diweithdra – patrymau gwaith • amlddiwylliannaeth.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(c) Natur newidiol darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a'r goblygiadau i'r gweithlu</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y newidiadau presennol wrth ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 – Dyletswydd Llesiant (Adran 5 o'r Ddeddf), • atal, ymyrryd yn gynnar, cydweithio, cydgynhyrchu • y dull gofal person-ganolog at ofal • bodloni anghenion iaith unigolion – Mwy na Geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol • goblygiadau'r newidiadau i rolau'r gweithwyr proffesiynol dan sylw gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • canolbwyntio ar rymuso unigolion a'r cyhoedd i rannu penderfyniadau am eu hiechyd (MECC) • mwy o gyfleoedd gyrfaol • meithrin sgiliau • gwaith tîm/cydweithio • rolau swyddi gwell • mwy o gyfrifoldebau • newidiadau i brosesau cofrestru/trwydded i ymarfer.

2.6.3. Rôl deddfwriaeth gyfredol a mentrau'r llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chymorth oedolion agored i niwed yng Nghymru

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl mentrau llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol er mwyn diogelu a gwella'r gofal a'r cymorth a ddarperir i oedolion sy'n wynebu risg yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- pwysigrwydd diogelu oedolion
- cyfrifoldebau unigolion sy'n darparu gofal i oedolion
- nodau deddfwriaeth a mentrau'r llywodraeth er mwyn gwella gofal a chymorth i oedolion.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Rôl mentrau'r llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol i ddiogelu a gwella gofal a chymorth i oedolion sy'n wynebu risg yng Nghymru.</p>	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pwysigrwydd diogelu oedolion a pham y gall fod yn angenrheidiol o ran eu hamddiffyn rhag cam-drin neu esgeuluso a pham y gall rhai oedolion fod yn fwy agored i niwed nag eraill • diogelu: mae'n ymwneud ag amddiffyn oedolion rhag cam-drin neu esgeuluso ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a pheryglon. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Atal (codi ymwybyddiaeth a meithrin gwybodaeth, deall cam-drin ac esgeuluso) • Adnabod (gwybod beth i'w wneud os gwelwch ef), • Rhoi Gwybod ac Ymchwilio, • Amddiffyn • Cofnodi • Deddfwriaeth (o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • Canlyniadau gorau i'r unigolyn • cyfrifoldebau ac atebolrwyddau unigolion sy'n darparu gofal i oedolion: <ul style="list-style-type: none"> • rhwymedigaeth i hybu diogelwch a lles oedolion • adnabod yr arwyddion bod oedolyn wedi dioddef niwed neu ei fod mewn perygl o niwed • atgyfeirio pryderon at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu • cyfrifoldebau'r sefydliadau sy'n darparu gofal i oedolion: <ul style="list-style-type: none"> • dilyn deddfwriaeth a chanllawiau'r llywodraeth • defnyddio gweithdrefnau fetio priodol wrth recriwtio gweithwyr newydd • darparu hyfforddiant i adnabod arwyddion cam-drin • codi pryderon • cyfrinachedd a rhoi gwybod/torri gofynion cyfrinachedd • eiriolaeth, e.e. Cefnogaeth Eiriolaeth Cymru.

Cynnwys	Ymhelaethu
<p>(a) Rôl mentrau'r llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol i ddiogelu a gwella gofal a chymorth i oedolion sy'n wynebu risg yng Nghymru. (parhad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • nodau deddfwriaeth a mentrau'r llywodraeth er mwyn gwella darpariaeth gofal a chymorth a diogelu oedolion, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) • Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 • Deddf Iechyd y Cyhoedd Cymru 2017 • Mentrau cyfredol, e.e. Gofal iechyd darbodus • Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) • • Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru • Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru • Mesur Llesiant – Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon i'w gweld isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Ar UG: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Ar lefel U2: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion **neu** Ofal Plant.

AA2

Ar UG: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Ar lefel U2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion **neu** Ofal Plant.

AA3

Dadansoddi a gwerthuso agweddau ar ofal er mwyn dangos dealltwriaeth, llunio barnau rhesymegol a dod i gasgliadau.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymwysterau UG a Safon Uwch llawn.

UG

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	20%	10%	20%	50%
Uned 2	15%	20%	15%	50%
Pwysoliad cyffredinol	35%	30%	35%	100%

Safon Uwch

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	8%	4%	8%	20%
Uned 2	6%	8%	6%	20%
Uned 3 / Uned 5	12%	6%	12%	30%
Uned 4 / Uned 6	9%	12%	9%	30%
Pwysoliad cyffredinol	35%	30%	35%	100%

Mae ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu mewn:

- cwestiwn penodol ym mhob un o'r arholiadau ysgrifenedig sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig
- yr adran '*dadansoddi a gwerthuso*' yn Uned 2 a'r adran '*asesu natur newidiol cymdeithas...*' yn Uned 4 ac Uned 6.

Mae ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn ystyried defnydd yr ymgeisydd o iaith arbenigol. Mae hefyd yn ystyried sillafu, atalnodi a gramadeg yr ymgeisydd.

3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

Mae Uned 2, Uned 4 ac Uned 6 yn asesiad di-arholiad. Rhoddir gwybodaeth am y trefniadau asesu di-arholiad gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ). Ewch i wefan y CGC, www.jcq.org.uk, am ragor o wybodaeth.

Tasgau

Cyflwynir y tasgau i'w hasesu yn Uned 2, Uned 4 ac Uned 6 yn Atodiad B i'r fanyleb hon. Byddan nhw'n aros yr un peth tra bod y fanyleb hon ar waith, fel bod lle i ddysgwyr ganolbwyntio ar faes neu grŵp targed sydd o ddiddordeb penodol iddynt.

Paratoi ar gyfer Asesiad Di-arholiad

Gall y tasgau di-arholiad gael eu cwblhau a'u hasesu ar unrhyw adeg addas yn ystod y cwrs.

Fodd bynnag, bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod wedi cyflwyno'r cynnwys angenrheidiol i ymgeiswyr allu cael marciau a roddwyd am bob agwedd ar yr asesiad di-arholiad. Rhaid bod dysgwyr wedi cael cyfle i ddysgu sgiliau a thechnegau, a dylai canolfannau arwain dysgwyr tuag at feysydd ymchwil priodol a sefydlu sgiliau ymchwilio cadarn, i baratoi ar gyfer yr asesiadau.

Cyn dechrau'r cwrs, mae'r athro yn gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Ni ddylai ymgeiswyr ymddwyn mewn ffordd annheg wrth baratoi gwaith ar gyfer y TAG mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Rhaid i ymgeiswyr ddeall bod yn Rhaid cyfeirio at wybodaeth o ffynonellau cyhoeddus. Dylent gael arweiniad ar nodi cyfeiriadau a bod yn ymwybodol na ddylent gyflawni llên-ladrad. Dylent wybod bod copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuan o gamymddwyn sydd ganddynt.

Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Mae'n ofynnol i bob dysgwr lofnodi mai ei waith ei hun a gyflwynwyd ganddo ac mae'n ofynnol i athrawon gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a aseswyd a'i fod wedi'i gyflawni dan yr amodau gofynnol.

Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio ar unrhyw dasgau asesu di-arholiad.

Yr amser sydd ar gael ar gyfer Asesiad Di-arholiad

Dylai dysgwyr dreulio tua 30 awr ar eu tasg asesu di-arholiad ar gyfer Uned 2 a thua 40 awr ar eu tasg asesu di-arholiad ar gyfer Uned 4 neu Uned 6. Mae'r amseroedd hyn yn cyfeirio at waith wedi'i gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth.

Gellir gwneud gwaith ymchwilio ar gyfer Uned 2, Uned 4 ac Uned 6 y tu allan i'r amser goruchwyllo, ac ni ddylid ei gofnodi i gyfrif tuag at yr amseroedd a nodir uchod. Rhaid i'r holl waith heblaw am y gwaith ymchwilio gael ei gwblhau o dan oruchwyliaeth uniongyrchol ac mae'n cyfrif tuag at yr amseroedd a nodir uchod.

Does dim gofyniad nac argymhelliad ar gyfer nifer y geiriau na'r tudalennau mewn tasgau Asesiad Di-arholiad.

Goruchwyllo a Monitro Asesiad Di-arholiad

- Yn ystod y cyfnod ysgrifennu, dylai gwaith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen er mwyn lleihau'r risg o gamymddwyn.
- **Nid** oes rhaid goruchwyllo'r ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser.
- Gellir cwblhau gwaith ymchwil y tu allan i'r ganolfan heb oruchwyliaeth uniongyrchol, ar yr amod bod y ganolfan yn hyderus mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gynhyrchwyd. Y tu allan i'r ganolfan, gall ymgeiswyr:
 - gael mynediad anghyfyngedig i adnoddau electronig ac argraffedig
 - defnyddio'r rhyngwyd heb gyfyngiadau.
- Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngwyd. Gall ymgeiswyr gael mynediad yn ystod eu hasesiadau di-arholiad at adnoddau electronig ac argraffedig, a'u nodiadau eu hunain, a gasglwyd yn ystod eu gwaith ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i'r ganolfan sicrhau:
 - bod digon o oruchwyliaeth i bob ymgeisydd er mwyn galluogi dilysu'r gwaith
 - mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu.
- Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion tasgau asesu di-arholiad, yr asesiad a'r meini prawf marcio cysylltiedig.
- Gall athrawon gynghori ymgeiswyr ar ba mor addas yw'r cyd-destun sydd wedi'i ddewis ar gyfer eu tasg ymchwiliol Uned 2 neu dasg Uned 4/Uned 6, o ran y cyfle i'r gwaith terfynol fodloni'r holl ofynion asesu perthnasol.
- Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol am yr hyn i'w wella. Ni chaiff athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn.
- Mae 'cyngor cyffredinol' yng nghyd-destun Asesu Di-arholiad TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn cynnwys:
 - sicrhau bod ymgeiswyr yn deall gofynion y dasg Uned 2, Uned 4 neu Uned 6, o ran y meini prawf a'r gweithgareddau asesu, y canlyniadau gofynnol a'r amser sydd ar gael
 - sicrhau bod gan lwybrau'r ymgeiswyr drwy'r asesiad di-arholiad y potensial i fodloni gofynion y meini prawf marcio a'u bod yn ddigon anodd i ennill y marciau o'r bandiau uchaf
 - darparu arweiniad ar y defnydd o galedwedd a meddalwedd TGCh sydd ar gael i ymgeiswyr sy'n cyflawni gweithgareddau Asesu Di-arholiad.

- Yng nghyd-destun 'cyngor cyffredinol' **ni** chaiff athrawon:
 - roi cyngor manwl i'r ymgeisydd na chymryd yr awenau drwy'r broses Asesu Di-arholiad
 - pennu cyd-destun y gweithgaredd asesu di-arholiad, rhaid mai penderfyniad yr ymgeisydd ei hun ydyw
 - cywiro nac addasu gwaith ymgeisydd
 - rhoi cyfarwyddyd penodol i ymgeisydd er mwyn iddo ennill marciau uwch
 - llunio unrhyw fath o ffrâm ysgrifennu i'w defnyddio mewn gweithgareddau asesu di-arholiad.
- Mae ymgeiswyr yn cael defnyddio adnoddau a all gynnwys gwybodaeth a gesglir y tu allan i'r ysgol/coleg, er enghraifft fel rhan o'u gweithgareddau ymchwilio neu ymchwil.
- Pan fydd ymgeiswyr yn gweithio ar eu hasesiad di-arholiad, rhaid i athrawon fonitro cynnydd yn ddigonol er mwyn gallu dilysu'r gwaith fel gwaith yr ymgeisydd ei hun (gweler hefyd y wybodaeth am ddilysu isod).
- Ar ôl cwblhau'r dasg a'i hasesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith.

Dylai'r athro gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar bob tasg asesu di-arholiad fel log. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd i'w gymedroli. Dylai'r log gael ei fonitro gan y ganolfan er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn treulio tua 30 awr a 40 awr ar eu tasgau di-arholiad perthnasol ar gyfer Uned 2 ac Uned 4 neu Uned 6.

Dilysu

Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Dylai canolfannau fonitro gwaith ymgeiswyr drwy:

- gadw cofnod gofalus o gynnydd yn ystod y sesiynau a amserlennwyd
- ystyried yn ofalus a yw'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn nodweddiadol o allu/cyrhaeddiad yr ymgeiswyr
- cadw gwaith yn ddiogel yn y ganolfan unwaith y bydd y dystiolaeth yn cael ei chyflwyno
- sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r ymgeisydd i wneud newidiadau.

Cyfeiriadau

Mae'n rhaid cydnabod cyfeiriadau at ffynonellau o wybodaeth mewn tasgau asesu di-arholiad. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio llyfryddiaeth atodol drwy ddefnyddio system gyfeirio fewn-destunol gonfensiynol, neu drwy ddefnyddio troednodiaidau.

Y dystiolaeth i'w chyflwyno

Rhaid i ganolfannau sicrhau CBAC mai gwaith yr ymgeiswyr dan sylw yw'r dystiolaeth a gyflwynir. Heblaw am weithgareddau ymchwilio, rhaid i'r holl waith gael ei gyflawni dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

Rhaid i'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth gwaith yr ymgeisydd gwblhau datganiad ei fod/bod yn fodlon mai dystiolaeth yr ymgeisydd dan sylw yw'r hyn a gyflwynwyd.

Uned 2

Tasg ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n cynnwys tystiolaeth briodol o adroddiad a chyflwyniad/blog/ffeithlun wedi'u llunio gan yr ymgeisydd, taflen farciau wedi'i chwblhau gan yr aseswr, datganiadau dilysu wedi'u llofnodi (gan yr athro/athrawes a'r ymgeisydd) a gyflwynir i'r cymedrolwr.

Uned 4 (llwybr gofal plant yn unig)

Tasg ar fodloni anghenion gofal plant a phobl ifanc sy'n cynnwys tystiolaeth briodol o gyflwyniad ac adroddiad wedi'u llunio gan yr ymgeisydd, taflen farciau wedi'i chwblhau gan yr aseswr, datganiadau dilysu wedi'u llofnodi (gan yr athro/athrawes a'r ymgeisydd) a gyflwynir i'r cymedrolwr.

Uned 6 (llwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn unig)

Tasg ar fodloni anghenion gofal oedolion sy'n cynnwys tystiolaeth briodol o gyflwyniad ac adroddiad wedi'u llunio gan yr ymgeisydd, taflen farciau wedi'i chwblhau gan yr aseswr, datganiadau dilysu wedi'u llofnodi (gan yr athro/athrawes a'r ymgeisydd) a gyflwynir i'r cymedrolwr.

Rhaid llenwi taflenni clawr asesiad di-arholiad ar gyfer pob ymgeisydd, nid dim ond y rhai a ddewisir i'w cymedroli. Mae'r ffurflenni ar gael i'w llwytho i lawr o

<https://www.dysquiechydagofal.cymru/>

Diogelwch gwaith ymgeiswyr

Rhaid cadw gwaith ymgeiswyr yn ddiogel rhwng sesiynau asesu di-arholiad wedi'u hamserlennu, a than ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r cymedroli neu tan y bydd adolygiad o'r cymedroli, apêl neu ymchwiliad i gamymddwyn wedi ei gwblhau, pa bynnag sydd hwyraf.

Meini prawf asesu ar gyfer Uned 2, Uned 4 ac Uned 6

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer Uned 2, Uned 4 ac Uned 6 wedi'u crynhoi yn y tablau isod ac fe'u dangosir yn fanwl yn Atodiad A.

Uned 2 Tasg 1

Meini Prawf Asesu		Amcanion Asesu a chynnwys	Marciau
<p>Mae ymarferwyr o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn cydweithio o fewn canllawiau deddfwriaethol i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</p> <p>Mae'n ofynnol i chi lunio adroddiad sydd yn:</p>			
(a)	Amlinellu rolau swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl ddau ymarferwr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru.	AA1 2.2.3(c)	[6 marc]
(b)	Trafod sut mae deddfwriaeth, mentrau a rheoleiddio cyfredol yn cefnogi ac yn effeithio ar sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy o ansawdd uchel yn cael eu darparu yng Nghymru.	AA1 AA3 2.2.2(a),(ch) 2.2.4 (a)	[8 marc] [4 marc]
(c)	Canolbwyntio ar ddau ymarferwr o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ofal plant, ac:	AA2 2.2.2(c)	[6 marc]
	(i) ar gyfer un o'r ymarferwyr, yn esbonio amrywiaeth o sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.		
	(ii) ar gyfer yr ymarferwr arall , yn esbonio: <ul style="list-style-type: none"> yr egwyddorion gofal a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'w arferion gwaith, a sut maen nhw'n cael eu cymhwyso sut mae'r ymarferwr yn gweithio yn rhan o dîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod canlyniadau personol yn cael eu cyflawni. 	AA2 2.2.2(b) 2.2.2(d)	[8 marc]
Isgyfanswm 32 marc			

Uned 2 Tasg 2:

Meini Prawf Asesu		Amcanion Asesu a chynnwys	Marciau
<p>Mae'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth a fyddai'n berthnasol i unigolion sy'n cynllunio gyrfa yn y dyfodol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant. Gallwch gyflwyno eich gwaith mewn amrywiol fformatau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyflwyniad • blog • ffeithlun <p>neu gyfuniad o'r rhain.</p> <p>Rhaid i'ch gwaith fod yn gysylltiedig ag unigolyn o'ch dewis sydd ag anghenion penodol a rhaid i chi gynnwys y canlynol:</p>			
(a)	Esboniad o sut gellid nodi ac asesu dau o anghenion penodol yr unigolyn er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol.	AA2 2.2.1(c)	[6 marc]
(b)	Amlinelliad o sut gellir cefnogi'r unigolyn i nodi cryfderau, ac esboniad o sut gallai hyn helpu i gyflawni canlyniadau personol a meithrin gwydnwch.	AA1 AA2 2.2.1(a) 2.2.1(b)	[8 marc] [4 marc]
(c)	Archwiliad o'r ffyrdd mae'r unigolyn yn gallu cael ei gefnogi i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol.	AA3 2.2.1(ch)	[6 marc]
(ch)	Mewn perthynas â'r unigolyn, amlinelliad o strwythur darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant berthnasol, ac ystyriaeth o sut mae'r rhain yn cyferbynnu â'r hyn sydd ar gael mewn mannau eraill yn y DU.	AA1 AA3 2.2.3(a) 2.2.3(ch)	[8 marc] [8 marc]
(d)	Esboniad o gynaliadwyedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru.	AA2 2.2.3(b)	[10 marc]
(dd)	Esboniad o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o'r ddeddfwriaeth/polisi penodol ac asesiad o sut mae deddfwriaeth a pholisïau yn cydberthyn â'i gilydd, a'r effaith ar hawliau'r darparwr a'r unigolyn.	AA2 AA3 2.2.4(a) 2.2.4(b)	[6 marc] [12 marc]
			Isgyfanswm 68 marc
			Cyfanswm 100 marc

Uned 4 TASG 1 (Ilwybr gofal plant)

Meini Prawf Asesu		Amcanion Asesu a chynnwys	Marciau
Mae'n ofynnol i chi lunio cyflwyniad, wedi'i osod mewn lleoliad gofal plant penodol o'ch dewis (yng Nghymru), sydd yn:			
(a)	Esbonio pwysigrwydd gofal plentyn-ganolog wrth gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc yn ystod cyfnodau datblygiad allweddol.	AA2 (a)	[6 marc]
(b)	(i) Disgrifio'r mathau o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a'r newidiadau mewn bywyd y gall plentyn a/neu berson ifanc eu profi.	AA1 2.4.1(b)	[6 marc]
	(ii) Esbonio sut gallai'r rhain effeithio ar wydnwch a datblygiad y plentyn a/neu'r person ifanc, a'u gofal a'u cymorth yn y lleoliad o'ch dewis.	AA2 2.4.1(b)	[8 marc]
(c)	Esbonio'r mathau o asesu a'r pwrpas a sut gellir eu defnyddio i ddarparu cefnogaeth briodol, amserol a pharhaus i gwrdd ag anghenion sylfaenol a phenodol plant neu bobl ifanc.	AA2 2.4.1(ch)	[8 marc]
(ch)	Nodi'r rhwystrau y gall plant neu bobl ifanc eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal a chymorth.	AA1 (a)	[6 marc]
(d)	(i) Disgrifio pam y gallai rhai plant a phobl ifanc fod ag anghenion gofal cymhleth.	AA1 2.4.1(c)	[6 marc]
	(ii) Esbonio sut gellir deall anghenion gofal cymhleth ac ymateb iddynt yn y lleoliad o'ch dewis er mwyn darparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n cefnogi plant a/neu bobl ifanc i gyflawni canlyniadau personol.	AA2 2.4.1(c)	[10 marc]
			Isgyfanswm 50 marc

Uned 4 TASG 2 (Ilwybr gofal plant)

Meini Prawf Asesu		Amcanion Asesu a chynnwys	Marciau
Mae'n ofynnol i chi lunio adroddiad sydd yn:			
(a)	Archwilio materion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru.	AA3 (a)	[6 marc]
(b)	Esbonio newidiadau yn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru a goblygiadau'r newidiadau hyn ar rolau ymarferwyr yn y sector.	AA2 2.4.2(c)	[8 marc]
(c)	(i) Disgrifio pwysigrwydd diogelu wrth amddiffyn plant a phobl ifanc.	AA1 (a)	[6 marc]
	(ii) Disgrifio cyfrifoldebau ac atebolrwyddau unigolion a sefydliadau sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc, ac ystyried sut mae'r rhain yn dylanwadu ar ymarfer.	AA1 ac AA3 2.4.3(a)	[6 marc] [8 marc]
	(iii) Trafod nodau a rôl mentrau'r llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol i ddiogelu a gwella'r gofal mae plant a phobl ifanc yn ei gael yng Nghymru.	AA3 (a)	[8 marc]
(ch)	Asesu sut mae natur newidiol cymdeithas yn effeithio ar y sector gofal plant yng Nghymru.	AA3 2.2.4(b)	[8 marc]
			Isgyfanswm 50 marc
			Cyfanswm 100 marc

Uned 6 (Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion Safon Uwch)

Meini Prawf Asesu		Amcanion Asesu a chynnwys	Marciau
Mae'n ofynnol i chi lunio cyflwyniad, wedi'i osod mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion penodedig (yng Nghymru) o'ch dewis chi, sydd yn:			
(a)	Esbonio: <ul style="list-style-type: none"> sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau pwysigrwydd gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth fodloni anghenion oedolion. 	AA2 (a)	[6 marc]
(b)	(i) Disgrifio'r mathau o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau bywyd y gall oedolyn eu profi.	AA1 2.6.1(c)	[6 marc]
	(ii) Esbonio sut mae'r rhain yn effeithio ar anghenion gofal a chymorth oedolion yn y lleoliad o'ch dewis.	AA2 2.6.1(c)	[8 marc]
(c)	Esbonio'r mathau o asesu a'r pwrpas a sut gellir eu defnyddio mewn lleoliad o'ch dewis i ddarparu cefnogaeth briodol, amserol a pharhaus i gwrdd ag anghenion sylfaenol a phenodol oedolion.	AA2 2.6.1(ch)	[8 marc]
(ch)	Amlinellu'r rhwystrau y gall oedolion yn y lleoliad o'ch dewis eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal a chymorth.	AA1 2.6.1(b)	[6 marc]
(d)	(i) Amlinellu: <ul style="list-style-type: none"> pam y gallai rhai oedolion fod ag anghenion gofal cymhleth dull cyfannol o ymdrin â gofal diwedd oes a gofal lliniarol. 	AA1 2.6.1(c)	[6 marc]
	(ii) Esbonio sut gellir deall anghenion gofal cymhleth ac ymateb iddynt, a sut gellir goresgyn unrhyw rwystrau, yn y lleoliad o'ch dewis, er mwyn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, sy'n cefnogi oedolion i gyflawni canlyniadau personol.	AA2 2.6.1(c)	[10 marc]
			Isgyfanswm 50 marc

Uned 6 (Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion Safon Uwch)

Meini Prawf Asesu		Amcanion Asesu a chynnwys	Marciau
Mae'n ofynnol i chi lunio adroddiad sydd yn:			
(a)	Archwilio materion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.	AA3 (a)	[6 marc]
(b)	Esbonio newidiadau yn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a goblygiadau'r newidiadau hyn ar rolau ymarferwyr yn y sector.	AA2 2.6.2(c)	[8 marc]
(c)	(i) Disgrifio pwysigrwydd diogelu wrth amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg yng Nghymru.	AA1 2.6.3 (a)	[6 marc]
	(ii) Disgrifio cyfrifoldebau ac atebolrwyddau unigolion a sefydliadau sy'n darparu gofal i oedolion sy'n wynebu risg, ac ystyried sut mae'r rhain yn dylanwadu ar ymarfer.	AA1 AA3 2.6.3(a)	[6 marc] [8 marc]
	(iii) Yn trafod nodau a rôl y darn penodol o ddeddfwriaeth neu fenter i ddiogelu a gwella gofal sy'n wynebu risg yng Nghymru.	AA3 2.6.3 (a)	[8 marc]
(ch)	Asesu sut mae natur newidiol cymdeithas yn effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.	AA3 2.6.2(b)	[8 marc]
			Isgyfanswm 50 marc
			Cyfanswm 100 marc

Marcio

Bydd Uned 2, Uned 4 ac Uned 6 yn cael eu hasesu'n fewnol gan ddefnyddio'r cynlluniau marcio yn Atodiad A, a'u cymedroli'n allanol gan CBAC.

Safoni mewnol a chymedroli

Pan fo mwy nag un athro mewn canolfan, rhaid i waith gan bob grŵp addysgu gael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu yn y ganolfan.

Gridiau asesu ac anodiadau athrawon

Wrth asesu'r dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer pob asesiad, dylai athrawon astudio bandiau a gridiau marciau'r asesiad di-arholiad yn Atodiad A, sydd wedi'u cynllunio i gyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu â marciau, ac sy'n helpu i wahaniaethu'n glir rhwng y lefelau cyrhaeddiad amrywiol.

Mae'n ofynnol i athrawon gofnodi marciau ar wahân ar gyfer pob adran yn y lleoedd gwag ar y grid marcio, gan nodi cyfanswm y marciau yn y blwch a gwneud sylw crynodol cyffredinol.

Er nad ydynt yn orfodol, mae anodiadau gan athrawon yng nghorff y dystiolaeth ysgrifenedig yn ddefnyddiol iawn er mwyn dangos ble a pham y rhoddwyd y marciau.

Bydd enghreifftiau o asesiadau di-arholiad yn cael eu cyhoeddi gan CBAC er mwyn helpu canolfannau i nodi safon y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau amrywiol. Bwriedir y deunyddiau hyn at ddefnydd aseswyr mewnol asesiadau di-arholiad yn unig ac ni chaniateir eu rhannu ag ymgeiswyr.

Cyflwyno marciau a gweinyddu

Mae angen i ganolfannau gyflwyno marciau gwaith yr asesiad di-arholiad ar-lein erbyn dyddiad penodol ym mis Mai blwyddyn cyflwyno'r gwaith i'w gymedroli. Pan gyflwynir y marciau i CBAC, bydd y system yn nodi sampl o ymgeiswyr y mae eu gwaith wedi'i ddewis i'w gymedroli.

- dim ond y dystiolaeth gan yr ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer y sampl y dylid ei hanfon at y cymedrolwr
- rhaid i waith pob ymgeisydd arall gael ei gadw yn y ganolfan
- mae'n rhaid i'r ymgeisydd a'r athro lofnodi'r dudalen glawr

Rhaid dilysu gwaith pob ymgeisydd yn fewnol, nid y sampl yn unig, drwy lofnodi taflen glawr.

Rhoddir rhagor o fanylion am gyflwyno samplau yn

<https://www.dysquiechydagofal.cymru/>

Adborth y ganolfan

Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ar y broses gymedroli ar ffurf adroddiad electronig.

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2021 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2021.

Uned 3 ac Uned 4 (llwybr gofal plant); ac Uned 5 ac Uned 6 (llwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion) ar gael yn 2022 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2022.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod mis Mai/Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol i bob un. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau ar gyfer unedau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

	Teitl	Codau cofrestru	
		Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
Uned 1	Hybu iechyd a llesiant	2570U1	2570N1
Uned 2	Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru	2570U2	2570N2
Uned 3	Safbwyntiau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc	1570U3	1570N3
Uned 4	Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc	1570U4	1570N4
Uned 5	Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion	1570U5	1570N5
Uned 6	Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch	1570U6	1570N6
UG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (cyfnewid)		2570QS	2570CS
Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (cyfnewid)		1570QS	1570CS

Mae'r rhifyn cyfredol o'n dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru ar gyfer y fanyleb hon gydag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch CBAC arall.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

Pwysoli'r Unedau	Uchafswm marciau unffurf yr uned	Gradd Uned				
		a	b	c	d	e
Uned 1 (20%)	100	80	70	60	50	40
Uned 2 (20%)	100	80	70	60	50	40
Uned 3 / Uned 5 (30%)	150	120	105	90	75	60
Uned 4 / Uned 6 (30%)	150	120	105	90	75	60

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a seilir gradd y pwnc ar y cyfanswm hwn.

	Uchafswm Marciau Unffurf	Gradd y cymhwyster				
		A	B	C	Ch	D
TAG UG	200	160	140	120	100	80
TAG Safon Uwch	500	400	350	300	250	200

Ar gyfer Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).

ATODIAD A

Gridiau marcio Asesu Di-arholiad ar gyfer Uned 2

Gridiau asesu ar gyfer Asesu Di-arholiad Uned 2

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodiad, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnol

Os oes mwy nag un athro/athrawes mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau.

Uned 2

Tasg 1

Mae ymarferwyr o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn cydweithio o fewn canllawiau deddfwriaethol i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae'n ofynnol i chi lunio adroddiad sydd yn:

(a)	Amlinellu rolau swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl dau ymarferwr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru. [6 marc]	
Band	AA1:	<i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>
3	5-6 marc	
	Amlinelliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o rolau swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl dau ymarferwr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru.	
2	3-4 marc	
	Amlinelliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn o rolau swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl dau ymarferwr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru.	
1	1-2 marc	
	Amlinelliad cyfyngedig sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rolau swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl ymarferwyr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru.	
	0 marc	
	Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(Gellir dyfarnu uchafswm o **3 marc** os yw'r ymateb yn ymwneud ag un ymarferwr yn unig.)

(b)		Trafod sut mae deddfwriaeth, mentrau a rheoleiddio cyfredol yn cefnogi ac yn effeithio ar sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy o ansawdd uchel yn cael eu darparu yng Nghymru.		[12 marc]
Band	AA1:	<i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>	AA3:	<i>Dadansoddi a gwerthuso agweddau ar ofal er mwyn dangos dealltwriaeth, llunio barnau rhesymegol a dod i gasgliadau.</i>
4	<p style="text-align: center;">7-8 marc</p> <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • deddfwriaeth, mentrau a rheoleiddio cyfredol a enwir • safonau a bennir mewn deddfwriaeth a sefydliadau sy'n rheoleiddio ac yn arolygu • sut mae amrediad eang o ddeddfwriaeth, mentrau a rheoleiddio cyfredol yn cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant person-ganolog/plentyn-ganolog cynaliadwy, o ansawdd uchel yng Nghymru. 		<p>Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.</p> <p style="text-align: center;">Dyfernir 4 marc ar gyfer Band 3.</p>	
3	<p style="text-align: center;">5-6 marc</p> <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • deddfwriaeth, mentrau a rheoleiddio cyfredol a enwir • safonau a bennir mewn deddfwriaeth a/neu sefydliadau sy'n rheoleiddio ac yn arolygu • sut mae amrediad o ddeddfwriaeth, mentrau a rheoleiddio cyfredol yn cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant person-ganolog/plentyn-ganolog cynaliadwy, o ansawdd uchel yng Nghymru. 		<p style="text-align: center;">4 marc</p> <p>Trafodaeth dda iawn sy'n dangos barnau rhesymegol am effaith deddfwriaeth, mentrau a rheoliadau cyfredol a enwir mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwasanaethau gofal cynaliadwy • gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant o ansawdd uchel yng Nghymru. 	
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • deddfwriaeth, mentrau a/neu reoliadau cyfredol • sut mae deddfwriaeth, mentrau a/neu reoliadau cyfredol yn cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant cynaliadwy, o ansawdd uchel, yng Nghymru. 		<p style="text-align: center;">2-3 marc</p> <p>Trafodaeth dda sy'n dangos barnau dilys ar y cyfan am effaith deddfwriaeth, mentrau a/neu reoliadau cyfredol mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwasanaethau gofal cynaliadwy • gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant o ansawdd uchel yng Nghymru. 	

Band	AA1:	<i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>	AA3:	<i>Dadansoddi a gwerthuso agweddau ar ofal er mwyn dangos dealltwriaeth, llunio barnau rhesymegol a dod i gasgliadau.</i>
1	1-2 farc Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • deddfwriaeth, mentrau neu reoleiddio cyfredol • sut mae deddfwriaeth, mentrau neu reoleiddio cyfredol yn cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol neu ofal plant cynaliadwy. 		1 marc Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o farn ddilys am effaith deddfwriaeth, mentrau neu reoleiddio cyfredol mewn perthynas â: <ul style="list-style-type: none"> • gwasanaethau gofal cynaliadwy • gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant o ansawdd uchel. 	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.		0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(c)(i)	<p>Canolbwyntio ar ddau ymarferwr o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ofal plant, ac:</p> <p>(i) ar gyfer un o'r ymarferwyr, yn esbonio amrywiaeth o sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. [6 marc]</p>	
Band	AA2:	<i>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>
3	<p style="text-align: center;">5-6 marc</p> <p>Esboniad da iawn sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau sy'n gallu cael eu defnyddio gan yr ymarferwr a ddewiswyd • dealltwriaeth hyderus o sut gall yr ymarferwr gymhwyso'r sgiliau a'r technegau hyn at ei arferion gwaith er mwyn hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. 	
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <p>Esboniad da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau sy'n gallu cael eu defnyddio gan yr ymarferwr a ddewiswyd • dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gall yr ymarferwr gymhwyso'r sgiliau a'r technegau hyn at ei arferion gwaith er mwyn hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. 	
1	<p style="text-align: center;">1-2 marc</p> <p>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sgiliau a thechnegau sy'n gallu cael eu defnyddio gan yr ymarferwr a ddewiswyd • rhywfaint o ddealltwriaeth o sut gall yr ymarferwr gymhwyso'r sgiliau a'r technegau hyn at ei arferion gwaith er mwyn hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. 	
	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p style="text-align: center;">Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

(c)(ii)	ar gyfer yr ymarferwr arall , yn esbonio: <ul style="list-style-type: none"> • yr egwyddorion gofal a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'w arferion gwaith, a sut maen nhw'n cael eu cymhwyso • sut mae'r ymarferwr yn gweithio yn rhan o dîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod canlyniadau personol yn cael eu cyflawni. <p style="text-align: right;">[8 marc]</p>	
Band	AA2:	<i>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>
4	<p style="text-align: center;">7-8 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniad ardderchog sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o amrywiaeth o egwyddorion allweddol a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i arferion gwaith yr ymarferwr a ddewiswyd • dealltwriaeth hyderus o sut gall yr ymarferwr gymhwyso'r egwyddorion a'r gwerthoedd hyn er mwyn helpu i sicrhau gofal person-ganolog/plentyn-ganolog o ansawdd uchel. • Esboniad ardderchog sy'n dangos sut gall yr ymarferwr a ddewiswyd gyfrannu at weithio'n amlddisgyblaethol ac mewn partneriaeth: <ul style="list-style-type: none"> • gyda gweithwyr proffesiynol eraill a'r unigolyn • i gefnogi'r unigolyn i nodi a chyflawni canlyniadau personol. 	
3	<p style="text-align: center;">5-6 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniad da sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn o'r prif egwyddorion gofal a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i arferion gwaith yr ymarferwr a ddewiswyd • dealltwriaeth gyffredinol gadarn o sut gall yr ymarferwr gymhwyso'r egwyddorion a'r gwerthoedd hyn er mwyn helpu i sicrhau gofal person-ganolog/plentyn-ganolog o ansawdd uchel. • Esboniad da o sut gall yr ymarferwr a ddewiswyd gyfrannu at weithio amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth: <ul style="list-style-type: none"> • gyda gweithwyr proffesiynol eraill a/neu'r unigolyn • i gefnogi'r unigolyn i nodi a chyflawni canlyniadau personol. 	
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniad sylfaenol sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r egwyddorion gofal a/neu'r gwerthoedd sy'n sail i arferion gwaith yr ymarferwr a ddewiswyd • rhywfaint o ddealltwriaeth o sut gall yr ymarferwr gymhwyso'r egwyddorion a/neu'r gwerthoedd hyn er mwyn sicrhau gofal o ansawdd uchel. • Esboniad sylfaenol o sut gall yr ymarferwr a ddewiswyd gyfrannu at waith amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth: <ul style="list-style-type: none"> • gyda gweithwyr proffesiynol eraill • i gefnogi'r unigolyn i nodi a/neu gyflawni canlyniadau personol. 	
1	<p style="text-align: center;">1-2 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniad cyfyngedig sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o'r egwyddorion neu'r gwerthoedd sy'n sail i arferion gwaith yr ymarferwr a ddewiswyd • ychydig iawn o ddealltwriaeth o sut gall yr ymarferwr gymhwyso'r egwyddorion neu'r gwerthoedd hyn er mwyn sicrhau gofal o ansawdd uchel. • Esboniad cyfyngedig o sut gall yr ymarferwr gyfrannu at waith amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth. 	
	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p style="text-align: center;">Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

Tasg 2

Mae'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth a fyddai'n berthnasol i ddysgwyr sy'n cynllunio gyrfa yn y dyfodol yn y sectorau ieched, gofal cymdeithasol **a/neu** ofal plant.

Gallwch gyflwyno eich gwaith mewn amrywiol fformatau:

- cyflwyniad
- blog
- ffeithlun

neu gyfuniad o'r rhain.

Rhaid i'ch gwaith fod yn gysylltiedig ag unigolyn o'ch dewis o **un** o'r sectorau sydd ag anghenion penodol a rhaid i chi gynnwys y canlynol:

(a)	Esboniad o sut gellid nodi dau o anghenion penodol yr unigolyn a'u hasesu er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol. [6 marc]	
Band	AA2:	<i>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o leched a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>
3	<p style="text-align: center;">5-6 marc</p> <p>Esboniad da iawn sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut gellid nodi dau o anghenion penodol yr unigolyn • dealltwriaeth hyderus o sut gellid asesu'r anghenion hynny er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol. 	
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <p>Esboniad da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gellid nodi dau o anghenion penodol yr unigolyn • dealltwriaeth hyderus ar y cyfan o sut gellid asesu'r anghenion hynny er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol. 	
1	<p style="text-align: center;">1-2 marc</p> <p>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gellid adnabod angen (anghenion) penodol yr unigolyn • rhywfaint o dealltwriaeth o sut gellid asesu'r anghenion hynny. 	
	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

(Gellir dyfarnu uchafswm o **3 marc** os yw'r ymateb yn ymwneud ag un angen penodol yn unig.)

(b) Amlinelliad o sut gellir cefnogi'r unigolyn i nodi cryfderau, ac esboniad o sut gallai hyn helpu i gyflawni canlyniadau personol a chryfhau gwydnwch. [12 marc]				
Band	AA1:	<i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>	AA2:	<i>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>
4	7-8 marc Amlinelliad ardderchog sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o strategaethau y gall yr unigolyn eu defnyddio i nodi cryfderau a chanlyniadau personol • dealltwriaeth hyderus o amrywiaeth o ffyrdd y gall ymarferwyr gefnogi unigolion i nodi eu cryfderau. 		Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn. Dyfernir 4 marc ar gyfer Band 3.	
3	5-6 marc Amlinelliad da sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o strategaethau gallai unigolyn eu defnyddio i nodi cryfderau a chanlyniadau personol • dealltwriaeth gyffredinol gadarn o ffyrdd y gall myfyrwyr gefnogi unigolion i nodi eu cryfderau. 		4 marc Esboniad da iawn sy'n dangos sut gall ymarferwyr gefnogi unigolyn i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • nodi canlyniadau personol sy'n ystyrion iddyn nhw • nodi cryfderau, er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau personol • nodi a meithrin eu gwydnwch. 	
2	3-4 marc Amlinelliad sylfaenol sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o strategaethau y gallai unigolyn eu defnyddio i nodi cryfderau a/neu ganlyniadau personol • rhywfaint o ddealltwriaeth o sut gall ymarferwyr gefnogi unigolion i nodi eu cryfderau. 		2-3 marc Esboniad da sy'n dangos sut gall ymarferwyr gefnogi unigolyn i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • nodi canlyniadau personol • nodi cryfderau, er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau personol • datblygu eu gwydnwch. 	
1	1-2 marc Amlinelliad cyfyngedig sy'n dangos: <ul style="list-style-type: none"> • ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o strategaethau y gall unigolyn eu defnyddio i nodi cryfderau neu ganlyniadau personol • ychydig iawn o ddealltwriaeth o sut gall ymarferwyr gefnogi unigolion i nodi eu cryfderau. 		1 marc Esboniad sylfaenol sy'n dangos sut gall ymarferwyr gefnogi unigolyn i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • nodi canlyniadau personol • nodi cryfderau • datblygu eu gwydnwch. 	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.		0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(c)	Archwiliad o'r ffyrdd mae'r unigolyn yn gallu cael ei gefnogi i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol. [6 marc]	
Band	AA3:	<i>Dadansoddi a gwerthuso agweddau ar ofal er mwyn dangos dealltwriaeth, llunio barnau rhesymegol a dod i gasgliadau.</i>
3	<p style="text-align: center;">5-6 marc</p> <p>Ymateb da iawn sy'n archwilio'r canlynol yn wrthrychol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amrywiaeth eang o ffyrdd mae'r unigolyn a ddewiswyd yn gallu cael ei gefnogi i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol • pwysigrwydd parhau i asesu a myfyrio ar unrhyw gynnydd a wneir tuag at gyflawni canlyniadau personol. 	
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <p>Ymateb da sy'n archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amrywiaeth o ffyrdd mae'r unigolyn a ddewiswyd yn gallu cael ei gefnogi i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol • y defnydd o asesu parhaus a/neu fyfyrion ar gynnydd. 	
1	<p style="text-align: center;">1-2 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sydd ond yn archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amrywiaeth gyfyngedig o ffyrdd mae'r unigolyn a ddewiswyd yn gallu cael ei gefnogi i fesur ei gynnydd • y defnydd o asesu parhaus neu fyfyrion ar gynnydd. 	
	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p style="text-align: center;">Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

(ch)	Mewn perthynas â'r unigolyn, amlinelliad o strwythur darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant perthnasol, ac ystyriaeth o sut mae'r rhain yn cyferbynnu â'r hyn sydd ar gael mewn mannau eraill yn y DU. [16 marc]			
Band	AA1:	<i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>	AA3:	<i>Dadansoddi a gwerthuso agweddau ar ofal er mwyn dangos dealltwriaeth, llunio barnau rhesymegol a dod i gasgliadau.</i>
4	<p style="text-align: center;">7-8 marc</p> <p>Amlinelliad ardderchog sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o strwythur, gan gynnwys y newid o ran ei natur a'i gymhlethdod, y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ofal plant berthnasol yng Nghymru, y gall yr unigolyn gael mynediad ati • dealltwriaeth hyderus o amrywiaeth eang o ofal a chymorth sydd ar gael i'r unigolyn drwy ddarpariaeth statudol, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru. 		<p style="text-align: center;">7-8 marc</p> <p>Ystyriaeth ardderchog, feirniadol a gwrthrychol o sut mae gwasanaethau perthnasol yng Nghymru yn cyferbynnu â rhannau eraill o'r DU, gan gynnwys cyfeiriad clir at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwahaniaethau o ran deddfwriaeth a pholisïau • canlyniadau datganoli • strwythur y ddarpariaeth • meini prawf o ran bod yn gymwys ac ariannu. 	
3	<p style="text-align: center;">5-6 marc</p> <p>Amlinelliad da sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn o'r strwythur, gan gynnwys y newid o ran ei natur a/neu ei gymhlethdod, y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ofal plant berthnasol yng Nghymru, y gall yr unigolyn gael mynediad ato • dealltwriaeth sicr ar y cyfan o amrywiaeth o ofal a chymorth sydd ar gael i'r unigolyn drwy ddarpariaeth statudol, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru. 		<p style="text-align: center;">5-6 marc</p> <p>Ystyriaeth dda a gwrthrychol o sut mae gwasanaethau yng Nghymru yn cyferbynnu â mannau eraill yn y DU, gan gynnwys cyfeiriad at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwahaniaethau o ran deddfwriaeth a pholisïau • canlyniadau datganoli • strwythur y ddarpariaeth • meini prawf o ran bod yn gymwys ac ariannu. 	

Band	AA1:	<i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>	AA3:	<i>Dadansoddi a gwerthuso agweddau ar ofal er mwyn dangos dealltwriaeth, llunio barnau rhesymegol a dod i gasgliadau.</i>
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <p>Amlinelliad sylfaenol sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o strwythur y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ofal plant berthnasol yng Nghymru, y gall yr unigolyn gael mynediad ati • rhywfaint o ddealltwriaeth o'r gofal a'r cymorth sydd ar gael i'r unigolyn drwy ddarpariaeth statudol, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru. 		<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <p>Ystyriaeth sylfaenol o sut mae gwasanaethau yng Nghymru yn cyferbynnu â mannau eraill yn y DU, gan gynnwys cyfeiriad cyffredinol at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwahaniaethau o ran deddfwriaeth a/neu bolisiau • canlyniadau datganoli • strwythur y ddarpariaeth • meini prawf o ran bod yn gymwys a/neu ariannu. 	
1	<p style="text-align: center;">1-2 farc</p> <p>Amlinelliad cyfyngedig sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o strwythur y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol neu ofal plant yng Nghymru • ychydig iawn o ddealltwriaeth o'r gofal neu'r gefnogaeth sydd ar gael drwy ddarpariaeth statudol, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru. 		<p style="text-align: center;">1-2 farc</p> <p>Ystyriaeth gyfyngedig o sut mae gwasanaethau yng Nghymru yn cyferbynnu â mannau eraill yn y DU, gan gynnwys cyfeiriad cyfyngedig at rai o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • deddfwriaeth • datganoli • strwythur y ddarpariaeth • meini prawf o ran bod yn gymwys neu ariannu. 	
	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>		<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

(d)	Esboniad o gynaliadwyedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru. [10 marc]	
Band	AA2:	<i>Cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.</i>
4	<p style="text-align: center;">9-10 marc</p> <p>Esboniad ardderchog sy'n dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o: <ul style="list-style-type: none"> • Nod Pedwarplyg 'Cymru Iachach' • amrediad eang o heriau sy'n wynebu'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru, a sut mae'r rhain yn effeithio ar gynaliadwyedd • y ffyrdd y mae unigolion yn gallu cyfrannu at gyflawni system gofal a chymorth gynaliadwy • dealltwriaeth hyderus o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • rhwystrau posibl i gael mynediad at wasanaethau a sut gellir eu goresgyn • cyfrifoldebau unigolion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru. 	
